# Papur Testun 13: Seilwaith Cymunedol

13







CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd & Môn

Chwefror 2015

**Cefndir**

Mae hwn yn un o gyfres o bapurau testun sydd wedi eu paratoi er mwyn darparu gwybodaeth fanylach ac i egluro’r modd y mae’r cynllun yn ymdrin â gwahanol bynciau a materion sy'n effeithio ar Ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Bydd y papur hwn yn rhoi sylw penodol i seilwaith cymunedol. Bydd yn egluro'r wybodaeth gefndirol sydd o gymorth wrth adnabod materion, amcanion ac opsiynau y ddogfen Cynllun Adnau.

Y Cynllun Adnau yw’r ail gam statudol paratoi y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd). Mae'r CDLl ar y Cyd yn siapio twf cymunedau o fewn Ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd i’r dyfodol, a bydd yn nodi'r polisïau a'r dynodiadau tir fydd yn sail i asesu ceisiadau cynllunio.

Bydd y Cynllun Adnau'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a fydd yn penodi arolygydd annibynnol i asesu cadernid y Cynllun yn yr Archwiliad Cyhoeddus. Os bydd yr arolygydd yn ystyried bod y Cynllun yn un cadarn bydd yn argymell ei fabwysiadu. Pan gaiff ei fabwysiadu, bydd y CDLl ar y Cyd yn disodli Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (2009) ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd a Chynllun Fframwaith Gwynedd (1993) a Chynllun Lleol Ynys Môn (1996) ar gyfer Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn.

Gellir darllen y papur testun hwn ar wahân neu ar y cyd â'r Papurau Testun a'r Papurau Cefndir eraill a baratowyd er mwyn rhoi darlun cyflawn o Ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Fe ellir cyfeirio tuag at y Papur Testun fel sail i unrhyw sylwadau ar y Cynllun Adnau. Fodd bynnag fe ddylid sylweddoli mae dim ond sylwadau ar y Cynllun Adnau fydd yn cael ei ystyried gan yr Arolygydd yn ystod Archwiliad Cyhoeddus y Cynllun yn hytrach na sylwadau penodol ar y Papur Testun.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu angen trafod unrhyw rhan o’r Papurau Testun neu Papurau Cefndir efo aelod o’r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd fe ellwch gysylltu efo ni-ar e-bost i neu'n ysgrifenedig at:

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) / Joint Planning Policy Unit
Llawr 1af Swyddfa Cyngor Dinas Bangor / 1st Floor Bangor City Council Offices
Bangor
LL57 1DT

01286 685003 neu 01766 771000

polisicynllunio@gwynedd.gov.uk

| | |
|---|---|
| Cyhoeddiad: Fersiwn 1 | Chwefror 2015 |

## CYNNWYS

1. CYFLWYNIAD

2. CYD-DESTUN POLISI CYNLLUNIO

3. DOSBARTHIAD SEILWAITH

4. CYNLLUNIO A CHYFLENWI SEILWAITH

a. ADDYSG – Ysgolion Cynradd ac Uwchradd
b. ADDYSG – Sefydliadau Addysg Bellach
c. CYFLEUSTERAU IECHYD
d. YNNI CARBON ISEL AC ADNEWYDDADWY
e. CYFLEUSTODAU – Dŵr
f. CYFLEUSTODAU – Nwy
g. CYFLEUSTODAU – Trydan
h. GWASTRAFF
i. TRAFNIDIAETH
j. CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL – Llyfrgelloedd
k. CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL – Diwylliannol a Chymunedol
l. CYFLEUSTERAU CHWARAEON
m. MANNAU GWYRDD
n. GWASANAETHAU BRYS – Gwasanaeth Heddlu
o. GWASANAETHAU BRYS – Gwasanaeth Tân ac Achub
p. TELATHREBU – Band eang
q. TELATHREBU – Gweithredwyr symudol

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Diben y papur pwnc hwn yw nodi'r ddarpariaeth seilwaith yn ardal y Cynllun ac i asesu'r seilwaith sydd ei angen er mwyn cefnogi ac ategu'r CDLl ar y Cyd. Yng nghyd-destun y CDLl ar y Cyd, mae seilwaith yn cynnwys dŵr (cyflenwad a gwastraff), cyflenwad nwy, cyflenwad trydan, cynhwysedd carthffosiaeth, telathrebu a mynediad band eang. Mae darparu seilwaith digonol yn rhan hanfodol o sicrhau bod lefel briodol o ddatblygiad yn digwydd ar draws ardal y Cynllun, a bydd yn sicrhau y gall gwasanaethau gwrdd â'r galw, a bod twf yn gynaliadwy mewn cymunedau lleol. Er mwyn darparu ar gyfer datblygu cynaliadwy o fewn cyfnod CDLl ar y Cyd o 2016-2026, rhaid i wasanaethau seilwaith gefnogi'r cymunedau presennol a rhai'r dyfodol.

1.2 Mae'r dadansoddiad o seilwaith mewn perthynas â'r Cynllun yn un ailadroddol a bydd y papur yn cael ei ddatblygu wrth i'r Cynllun fynd yn ei flaen. Bydd y papur pwnc yn amlinellu:

- Y **cyd-destun polisi** ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol a fydd yn dylanwadu ar ddatblygiad polisïau a cheisiadau;
- Y **ddarpariaeth bresennol** o ran seilwaith yn ardal y Cynllun;
- Y **ddarpariaeth a gynlluniwyd a gofynion i'r dyfodol** o wahanol fathau seilwaith**;** a
- Y prif **oblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** a nodwyd gan yr adolygiad seilwaith.

## 2. CYD-DESTUN POLISI CYNLLUNIO

**Cenedlaethol**

**Pobl, Lleoedd, Dyfodol - Cynllun Gofodol Cymru (2008)**

2.1 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru am yr 20 mlynedd nesaf. Mae’r amcanion yn y ddogfen hon sy'n ymwneud â darparu cyfleustodau yn ardal y gogledd orllewin yn ymwneud â gwella a darparu seilwaith cyfleustodau digonol i oresgyn y cyfyngiadau presennol. Dylai mynediad cynaliadwy a darpariaeth TGCh gael eu hystyried ar y cychwyn wrth gynllunio a datblygu safleoedd allweddol.

2.2 Nodir bod manteisio ar TGCh yn helpu i adeiladu economi gref, gynaliadwy, gystadleuol a llewyrchus, ond dim ond trwy hwyluso mynediad at seilwaith telathrebu modern y gall y defnydd effeithiol o TGCh fod ar gael. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer yr Ardal yn cynnwys:

- Buddsoddiad i’r dyfodol mewn uwchraddio'r seilwaith, sy'n macsimeiddio hygyrchedd i'r cyfleoedd sydd ar gael, gan gynnwys cysylltiadau TGCh cyflymder uchel.
- Adeiladu ar lwyddiant y rhwydwaith di-wifr Cyswllt Môn.
- Mae’n hanfodol darparu seilwaith, yn ogystal â chymorth penodol ar gyfer manteisio ar a defnyddio TGCh yn arbennig ar gyfer datblygu safleoedd/ aneddiadau allweddol ac ardaloedd gwledig ehangach nad ydynt wedi’u cysylltu'n agos â choridor yr A55, er mwyn gwella’n sylweddol cystadleurwydd busnes o fewn farchnad fyd-eang, ac ymdrin ag allgáu cymdeithasol.

**Polisi Cynllunio Cymru (2014)**

2.3 Mae seilwaith digonol ac effeithlon, gan gynnwys gwasanaethau megis cyfleusterau addysg ac iechyd, ynghyd â chyflenwad dŵr, carthffosydd, rheoli gwastraff, trydan a nwy (y cyfleustodau) a thelathrebu, yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ym mhob rhan o Gymru.

2.4 Amcanion y Llywodraeth ar gyfer seilwaith yw darparu:

- I amddiffyn a gwella adnoddau dŵr drwy gynyddu effeithlonrwydd a'r galw am ddŵr, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny lle nad oes adnoddau dŵr ychwanegol ar gael;
- I sicrhau bod cyfleusterau carthffosiaeth priodol yn cael eu darparu i gludo, trin a gwaredu dŵr gwastraff yn unol â deddfwriaeth ac egwyddorion cynaliadwyedd priodol;
- I sicrhau bod cyfleusterau priodol yn cael eu sefydlu i leihau, ailddefnyddio, adfer, a lle bo angen, gwaredu gwastraff yn ddiogel, er mwyn cwrdd ag amcanion y Llywodraeth ar gyfer rheoli gwastraff;

- I hyrwyddo cynhyrchu a defnydd ynni o ffynonellau ynni adnewyddadwy a charbon isel ar bob graddfa a hyrwyddo effeithlonrwydd ynni, yn enwedig fel modd o sicrhau datblygiadau carbon isel neu sero ac ymdrin ag achosion newid yn yr hinsawdd;
- I hwyluso'r gwaith o ddatblygu seilwaith telathrebu band eang uwch ledled Cymru;
- I hyrwyddo dull integredig o ddarparu ac adnewyddu seilwaith amgylcheddol a thelathrebu;
- I sicrhau bod seilwaith amgylcheddol a thelathrebu yn cael ei ddarparu yn y fath fodd ag i alluogi cwrdd ag amcanion datblygu cynaliadwy, gan osgoi effeithiau andwyol ar yr amgylchedd (gan gynnwys yr amgylchedd naturiol a hanesyddol), cymunedau lleol ac iechyd;
- I sicrhau wrth ystyried seilwaith amgylcheddol a thelathrebu y cymerir i ystyriaeth effeithiau newid yn yr hinsawdd o ran lleoliad, dyluniad, adeiladu, gweithredu a, lle y bo'n briodol, dadgomisiynu seilwaith newydd;
- I sicrhau bod bregusrwydd y seilwaith o ran digwyddiadau tywydd garw yn cael ei gadw ar y lleiaf bosibl, a bod seilwaith wedi'i gynllunio i ymdopi â thymheredd uwch na'r cyfartaledd a'r risg cynyddol o ymchwyddiadau storm, sychder a llifogydd.

2.5 Wrth baratoi cynlluniau datblygu ac ystyried ceisiadau cynllunio, dylid ystyried capasiti'r seilwaith presennol a'r angen am gyfleusterau ychwanegol. Yn gyffredinol, dylai awdurdodau cynllunio lleol geisio gwneud y defnydd gorau o seilwaith presennol a dylent ystyried sut y gellir cydlynu darparu gwahanol fathau o seilwaith.

**Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (2005)**

2.6 Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn ymwneud ag ystyriaethau cynllunio defnydd tir ynni adnewyddadwy. Fodd bynnag, mae polisi ynni'r DU a chenedlaethol yn gosod ei gyd-destun. Mae Polisi Ynni yn swyddogaeth neilltuedig sydd heb ei datganoli i Lywodraeth Cymru. Serch hynny, mae'n rhaid i bob penderfyniad sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy yng Nghymru ystyried polisi Llywodraeth Cymru. Mae gan y Cynulliad bolisi i gyflenwi 7 Awr Terra Watt (TWh) o drydan o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020.

**Nodyn Cyngor Technegol 19: Telathrebu**

2.7 Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn awgrymu y dylai cynlluniau datblygu roi ystyriaeth i ofynion strategol rhwydweithiau telathrebu a dull polisi cyffredinol Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn cynghori ei bod yn bwysig lleihau effeithiau datblygiadau, a gwarchod y safleoedd gorau a mwyaf sensitif.

**Cynllun Buddsoddi mewn Seilwaith i Gymru (2012) (Llywodraeth Cymru)**

Mae'r Cynllun Buddsoddi mewn Seilwaith i Gymru ar gyfer Twf a Swyddi yn amlinellu blaenoriaethau buddsoddi strategol Llywodraeth Cymru, yn rhoi disgrifiad manwl o gynlluniau buddsoddi sectoraidd tan 2014-15, ac yn nodi

elfennau allweddol dull newydd o fuddsoddi mewn seilwaith. Y blaenoriaethau buddsoddi yw:

- Gwella rhwydweithiau trafnidiaeth, yn enwedig cysylltiadau dwyrain-gorllewin yng Ngogledd a De Cymru.
- Gwella rhwydweithiau telathrebu.
- Cefnogi datblygiad y diwydiant ynni yng Nghymru.
- Buddsoddi mewn tai.
- Darparu gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithlon a darbodus.
- Gwella ansawdd yr ystâd addysgol.
- Datblygu ein Hardaloedd Menter.

**Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010)**

2.8 Mae'r Ddeddf hon yn rhoi manylion ynglŷn â darparu dŵr, gan gynnwys darpariaeth ynghylch rheoli risgiau mewn cysylltiad â llifogydd ac erydu arfordirol.

**Ein Rhwydwaith Trosglwyddo Trydan: Gweledigaeth ar gyfer 2020 (ENSG)**

2.9 Mae'r Grŵp Strategaeth Rhwydweithiau Trydan (ENSG) yn fforwm lefel uchel, sy'n dwyn ynghyd randdeiliaid allweddol mewn rhwydweithiau trydan sy'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi’r Llywodraeth o ran bodloni heriau ynni tymor hir o ymdrin â newid yn yr hinsawdd a sicrhau ynni diogel glân a fforddiadwy.

2.10 Mae'r adroddiad yn nodi ac yn amcangyfrif costau rhanbarthol yr atgyfnerthu trosglwyddo posibl a allai fod yn ofynnol ar gyfer cysylltiad amrediad o gynhyrchu newydd sydd ei angen i gyrraedd targedau ynni adnewyddadwy'r DU tra, ar yr un pryd, yn hwyluso cysylltiad cenhedlaeth newydd hanfodol arall a fydd ei angen i gynnal diogelwch parhaus y cyflenwad.

**<u>Rhanbarthol a Lleol</u>**

**Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (WRMP) (2014)**

2.11 Nodir Strategaeth Dŵr Cymru ar gyfer rheoli ei adnoddau dŵr yn eu 'Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr' (2014), gyda'r nod o gynnal y cydbwysedd rhwng cyflenwad a galw hyd at 2035. Mae'r ardal gyflenwi wedi ei rhannu'n bedair ar hugain o Barthau Adnoddau Dŵr (WRZ), a ddiffinnir fel yr ardal fwyaf lle y gall yr holl adnoddau gael eu rhannu. Oherwydd cyfyngiadau daearyddol, mae pob un o'r parthau hyn yn ei hanfod yn hunangynhwysol.

2.12 Y cwestiwn sylfaenol wrth gynllunio adnoddau dŵr yw p’un a ddisgwylir i’r cyflenwad dŵr, neu "Ddŵr sydd ar Gael i'w Ddefnyddio", fod yn ddigonol i ateb y galw am ddŵr (a ddiffinnir fel y Galw ynghyd â Tharged Ychwanegol Wrth Gefn), ac felly p’un a ddisgwylir i barth fod â gwarged neu ddiffyg. O dan y dull a ffefrir i drin ansicrwydd newid yn yr hinsawdd, mae parth Gogledd

Eryri ac Ynys Môn yn parhau i fod mewn gwarged am y 25 mlynedd nesaf. Fodd bynnag, os bydd yr ystod lawn o senarios hinsawdd UKCP09 yn cael eu cymryd i ystyriaeth yn y Targed Ychwanegol Wrth Gefn, daw'r gwarged a ragwelir o 2.9 Ml/d yn 2035 yn ddiffyg o 4.3 Ml/d.

2.14 Trwy gyfrwng cynlluniau rheoli adnoddau dŵr blaenorol, dangoswyd fod rhai o'r WRZs mewn diffyg o dan senarios cynllunio a rhagdybiaethau penodol. Ar hyn o bryd mae Dŵr Cymru yn diweddaru'r rhagolygon cyflenwad a galw am ddŵr a'r lwfans ar gyfer ansicrwydd yn y cyfan o'r WRZs. Os oes newidiadau i'r rhagolygon hyn, yna gall mân ddiffygion ymddangos o fewn rhai parthau ac arwain at yr angen i ddatblygu opsiynau rheoli galw neu gyflenwad dŵr. Gall Dŵr Cymru fod angen adnoddau dŵr ychwanegol yn y parthau canlynol:

- Gogledd Eryri Ynys Môn
- De Meirionnydd
- Tywyn/Aberdyfi
- Bala
- Alwen/Dyfrdwy
- Arfordir Clwyd

**Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru (Asiantaeth yr Amgylchedd, 2009)**

2.16 Diben y ddogfen hon yw amlinellu'r pwysau sy'n wynebu'r amgylchedd dŵr yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru, y mae Ynys Môn a Gwynedd yn rhan ohoni, a'r camau sydd eu hangen i ymdrin â hwy er mwyn cyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'r ddogfen yn nodi nifer o faterion sy'n effeithio ar Ranbarth Basn Afon Gorllewin Cymru. Yn gyffredinol, mae'r prif faterion a nodwyd yn ymwneud â llygredd ac ansawdd dŵr.

**Strategaeth Rheoli Tynnu Dŵr Dalgylch Ynys Môn (2007)**

2.17 Mae'r strategaeth yn disgrifio sut y dylid rheoli adnoddau dŵr Ynys Môn. Mae gan Ynys Môn ddwy gronfa fawr sy'n cyflenwi'r ynys gyda dŵr yfed. Maent hefyd yn ffynhonnell o ddŵr ar gyfer amaethyddiaeth, ffermio pysgod a diwydiant ysgafn.

2.18 Ar hyn o bryd, nid oes tynnu dŵr daear trwyddedig yn yr ardal gan fod tynnu dŵr daear wedi'i eithrio rhag trwyddedu, ond mae'n cael ei ddefnyddio'n helaeth ar gyfer cyflenwadau dŵr bach preifat ar draws yr ynys. Ers 1 Ebrill 2005, mae 5 trwydded tynnu dŵr wyneb cyfredol yn ardal CAMS Ynys Môn. O ganlyniad i Ddeddf Dŵr 2003, mae eithrio tynnu dŵr daear yn yr ardal hon yn cael ei godi ac yn y pendraw bydd angen trwyddedu pob tyniad dros 20m3/dydd.

**Strategaeth Rheoli Tynnu Dŵr Dalgylch Llŷn ac Eryri (2006)**

2.19 Mae'r strategaeth hon yn nodi sut y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli tynnu dŵr. Mae'n amlinellu lle mae dŵr ar gael, a hefyd, os yw'n berthnasol, lle mae angen lleihau'r graddfeydd presennol o dynnu dŵr. .Ar hyn o bryd,

mae tynnu dŵr daear wedi'i eithrio rhag yr angen am drwydded tynnu yn ardal CAMS Llŷn ac Eryri, felly ychydig a wyddys am faint o dynnu sy'n digwydd o'r ffynhonnell hon.

**Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (2001-2016)**

2.20 Mae CDU Gwynedd yn anelu at sicrhau bod unrhyw ddatblygiad angenrheidiol wedi ei leoli fel ei fod yn gwneud y defnydd gorau o dir, adeiladau, deunyddiau, gwasanaethau a chyfleusterau. Atgyfnertha cynigion y Cynllun hyn trwy gyfeirio'r rhan fwyaf o ddatblygiadau i'r trefi a'r pentrefi mwy lle ceir y ddarpariaeth orau o seilwaith.

2.21 Dyry'r Cynllun arweiniad cynllunio defnydd tir ar yr angen i sicrhau seilwaith digonol cyn cymeradwyo datblygiad. Mae hefyd yn rhoi arweiniad ar ddatblygu sy'n cynnwys darparu rhyw fath o seilwaith. Hefyd ystyria'r ddarpariaeth bresennol o seilwaith, a chyfeirio datblygu i leoliadau sy'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau.

2.22 Mae'r CDU hefyd yn sicrhau nad yw cynigion seilwaith yn achosi niwed sylweddol i'r dirwedd, yr arfordir, bioamrywiaeth, ardaloedd hanesyddol na mwynderau trigolion cyfagos.

**Cynllun Lleol Ynys Môn (1996)**

2.23 Mae'r cynllun yn tynnu sylw at bwysigrwydd cyflenwad seilwaith digonol i gefnogi datblygiad newydd ac mae'n hwyluso gwelliannau i'r seilwaith ffisegol sy'n cynnwys gwasanaethau fel addysg, hamdden, gofal iechyd a gwaredu gwastraff, yn ogystal â ffyrdd a charthffosydd.

**Cynllun Fframwaith Gwynedd (1993)**

2.24 Mae'r cynllun yn tynnu sylw at bwysigrwydd cyflenwad seilwaith digonol i gefnogi datblygiad newydd.

**Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn a Stopiwyd (2010)**

2.25 Mae'r CDU Ynys Môn a stopiwyd yn cydnabod pwysigrwydd seilwaith addas a chynaliadwy, sydd i raddau helaeth yn arwain llawer o benderfyniadau ynglŷn â phenderfyniadau i'r dyfodol ar leoliad datblygiadau newydd. Mae'r Cynllun yn hwyluso gwella'r seilwaith, megis carthffosiaeth neu driniaeth o garthion, gan gynnwys gosod seilwaith newydd lle bo angen, i hwyluso datblygu tir yn y mannau iawn i ddarparu ar gyfer anghenion sy'n deillio o'r strategaeth a ffefrir.

**Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd**

2.26 Mae'r Cynllun hwn yn ymgorffori gweledigaeth a chynllun gweithredu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar gyfer y ddwy sir. Diben y Cynllun yw gweithio ynghyd er mwyn gwella ein lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol dros y

12 mlynedd nesaf. Mae pwysigrwydd seilwaith i hyrwyddo lles economaidd cymdeithasol ac amgylcheddol yn rhedeg drwy'r strategaeth.

## 3. DOSBARTHIAD SEILWAITH

3.1 Dylid cydnabod bod gan wahanol fathau o seilwaith lefelau gwahanol o bwysigrwydd o ran hwyluso datblygiad fel rhan o'r broses CDLl ar y Cyd. Er bod rhai mathau seilwaith e.e. ysgolion, yn hanfodol i sicrhau bod gwasanaethau digonol ar gael i gwrdd ag anghenion y boblogaeth bresennol a'r dyfodol, mae mathau eraill o seilwaith yn llai pwysig ac yn perthyn yn fwy uniongyrchol at wella ansawdd bywyd.

3.2 Cydnabyddir felly y dylai mathau o seilwaith gael eu blaenoriaethu i adlewyrchu hyfywedd datblygiad, a'u pwysigrwydd priodol o ran hwyluso datblygu cymunedau cynaliadwy. Yng ngoleuni hyn, datblygwyd proses gategoreiddio i wahaniaethu rhwng pwysigrwydd cymharol y gwahanol fathau o seilwaith sydd eu hangen i hwyluso datblygu fel a ganlyn.

- **Sylfaenol** – mae'r seilwaith a nodwyd yn y categori hwn yn gritigol, ac ni all datblygiad ddigwydd hebddo. Mae'r rhain yn fathau o seilwaith y mae'n rhaid yn gyffredinol eu darparu ymlaen llaw i gefnogi datblygiad.

- **Angenrheidiol** – mae'r seilwaith yn y categori hwn fel arfer yn hanfodol er mwyn sicrhau twf mewn modd cynaliadwy, ond mae'r union amseriad a chyflwyniad graddol yn llai critigol, a gellir dechrau ar y datblygiad cyn y ddarpariaeth (e.e. darpariaeth ysgol, gofal iechyd).

- **A ffefrir** – dyma'r cyflenwad seilwaith a ffefrir er mwyn creu cymunedau cynaliadwy e.e. llyfrgelloedd, mannau gwyrdd. Nid yw amseru a phennu camau yn hanfodol dros gyfnod y cynllun.

3.3 Dengys y tabl isod y prif fathau o seilwaith sy'n ofynnol fel rhan o unrhyw ddatblygiad ac i ba gategori a enwir uchod y maent yn dod i mewn iddynt. Dylid cofio bod hon yn broses gategoreiddio cyffredinol, a bydd pwysigrwydd y math o seilwaith yn dibynnu ar nifer o ffactorau, a bydd yn cael ei benderfynu ar sail achos wrth achos.

**Tabl 3.1: Hierarchaeth Seilwaith**

| Testun Seilwaith | Is-destun Seilwaith | Safle yn yr Hierarchaeth |
|---|---|---|
| **Addysg** | Ysgolion Cynradd | Angenrheidiol |
| | Ysgolion Uwchradd | Angenrheidiol |
| **Iechyd** | Ysbytai | Angenrheidiol |
| | Meddygon Teulu | Angenrheidiol |
| | Deintyddion | Angenrheidiol |
| **Cyfleustodau** | Trydan | Sylfaenol |
| | Ynni Adnewyddadwy | Angenrheidiol |
| | Nwy | Sylfaenol |
| | Dŵr Yfed | Sylfaenol |
| **Gwastraff** | Gwastraff | Sylfaenol |
| | Ailgylchu | Sylfaenol |

| | | |
|---|---|---|
| **Dŵr a Dŵr Gwastraff** | Carthffosiaeth | Sylfaenol |
| | Trin dŵr gwastraff | Sylfaenol |
| **Trafnidiaeth** | Ffyrdd | Sylfaenol |
| | Trafnidiaeth Gyhoeddus | Sylfaenol |
| **Seilwaith Cymunedol** | Llyfrgelloedd | A ffefrir |
| | Canolfannau Cymunedol | A ffefrir |
| | Cyfleusterau Chwaraeon Adeiledig | A ffefrir |
| **Seilwaith Gwyrdd** | Caeau Chwarae/ Chwaraeon Awyr Agored | A ffefrir |
| | Mannau Agored/ Parciau | A ffefrir |
| | Rhandiroedd | A ffefrir |
| | Meysydd Chwarae | A ffefrir |
| **Gwasanaethau Brys** | Heddlu | A ffefrir |
| | Gwasanaeth Tân | A ffefrir |
| | Ambiwlans | A ffefrir |

## 4. CYNLLUNIO A CHYFLENWI SEILWAITH

4.1 Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r materion seilwaith allweddol yn ardal y Cynllun gan gynnwys darpariaethau cynllunio a gofynion i'r dyfodol, a beth yw'r goblygiadau i'r Cynllun sy'n dod i'r amlwg.

### 4.2 ADDYSG – CYNRADD AC UWCHRADD

**Darpariaeth Bresennol**

- 97 ysgol gynradd, 14 ysgol uwchradd a 2 ysgol anghenion arbennig yng Ngwynedd.

- 49 ysgol gynradd, 5 ysgol uwchradd ac un ysgol anghenion arbennig yn Ynys Môn.

4.2.1 Mae'r mapiau a gynhwysir yn Atodiad * yn dangos dalgylchoedd ysgolion cynradd Gwynedd ac Ynys Môn.

4.2.2 Bydd capasiti ysgolion yn brif ffactor wrth benderfynu lle i leoli datblygiadau. Dylai ysgolion fod â chapasiti digonol i gefnogi unrhyw gynnydd mewn poblogaeth a grëir gan ddatblygiad preswyl. Mae'r mapiau a gynhwysir yn Atodiad * yn dangos % y llefydd gweigion ym mhob dalgylch ysgol.

**Cynllunio'r Ddarpariaeth a Gofynion y Dyfodol**

***Gwynedd***

4.2.3 Mae'r gostyngiad sylweddol yn nifer y disgyblion yn golygu fod gan y Cyngor lefelau uchel o lefydd gweigion yn ei hysgolion Cynradd. Mae'r gostyngiad sylweddol yn nifer y disgyblion hefyd yn golygu fod gan fwy o ysgolion cynradd y sir 39 neu lai o ddisgyblion (ysgolion o fewn y rhwyd ddiogelwch). Mae 21 o ysgolion yn y categori hwn ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd hefyd, mae nifer disgyblion 10 ysgol gynradd yn uwch na'u capasiti. Mae niferoedd disgyblion yr ysgolion cynradd a'r ysgolion uwchradd rhwng 2010 a 2014 wedi'u cynnwys yn atodiad 2.

4.2.4 Mae pryder hefyd ynghylch cyflwr ac addasrwydd ysgolion cynradd y Sir. Mae angen buddsoddi'n sylweddol yn yr adeiladau i ymdrin â materion iechyd a diogelwch ac i gyrraedd y safonau priodol. Mae nifer o'r ysgolion mewn cyflwr gwael. Mae Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor yn amcangyfrif fod costau cynnal a chadw ysgolion yn £12.6 miliwn. Yn ychwanegol, mae pryder ynghylch cyflwr adeiladau dros dro mewn ysgolion all olygu bod gofyn gwario oddeutu £11 miliwn. Mae cost uwchraddio ac addasu adeiladau ysgol y Sir i ddiwallu gofynion cwricwlwm newydd a'r safonau disgwyliedig hyd yn oed yn fwy sylweddol.

4.2.5 Yn 2009, cymeradwyodd Cyngor Gwynedd strategaeth i ad-drefnu ysgolion y Sir. Mae'r strategaeth yn amlinellu gweledigaeth y Cyngor i ddarparu addysg o'r ansawdd gorau posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir ac i'w galluogi i ddatblygu yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn. Mae'r strategaeth yn adnabod chwech prif nod:

- dosbarthiadau o faint addas ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel
- hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg
- datblygu cynllun hir dymor rhagweithiol a chreadigol
- gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael
- creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i blant ac athrawon y Sir
- datblygu ysgolion yn sefydliadau sy'n ganolbwynt i weithgareddau cymunedol.

4.2.6 Cafodd y broses ad-drefnu ysgolion ei hailddiffinio yn 2012 fel rhan o adolygiad statudol o drefniadaeth ysgolion a datblygwyd cynllun blaenoriaethau i gynnwys y sectorau meithrin, cynradd, uwchradd ac addysg arbennig. Roedd yr adolygiad hwn hefyd yn ystyried cynllun Llywodraeth Cymru i leihau nifer y llefydd gweigion.

4.2.7 Mae gan Wynedd % uchel o lefydd gweigion mewn ysgolion ac mae hyn yn fater sy'n derbyn sylw gan Raglen Trefniadaeth Ysgolion yr Awdurdod. Mae hon yn rhaglen strategol i Gymru sy'n cael eu gyrru gan Lywodraeth Cymru. Mae lleihau nifer y llefydd gweigion yn ysgolion Gwynedd felly'n ofyn strategol a ceisia'r Drefniadaeth Ysgolion roi sylw i hyn ym mhob cynnig a gaiff ei ddatblygu.

4.2.8 Mae Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd yn gweithredu cynigion ad-drefnu ysgolion yn nalgylchoedd y Gader (Dolgellau) a'r Berwyn (Y Bala), yn ogystal â datblygu ysgol ardal newydd yn y Groeslon ar gyfer ardaloedd y Groeslon, Carmel a Bronyfoel (y Fron). Mae ysgol anghenion arbennig newydd yn cael ei datblygu yn ardal Penrhyndeudraeth ac mae bwriad hefyd i adeiladu ysgol newydd i ddisgyblion Ysgol Glancegin, Bangor hefyd ar y gweill.

4.2.9 Mae dalgylch y Gader yn mynd drwy'r broses ad-drefnu ysgolion ar hyn o bryd gyda'r bwriad i gau ysgolion cynradd Machreth, Brithdir, y Ganllwyd a Chlogau a chreu ysgol ddalgylch ddilynol i ddisgyblion 3-16 mlwydd oed. Un ysgol fydd hon, gydag un corff llywodraethu, un pennaeth ysgol ac un strwythur staffio, ond ei bod wedi'i lleoli ar chwech safle gwahanol, sef safleoedd Ysgol y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Llanelltyd, Ysgol y Friog, Ysgol Ieuan Gwynedd (Rhydymain) ac Ysgol Dinas Mawddwy.

4.2.10 Mae gwedd gyntaf y cynllun trefniadaeth ysgolion eisoes wedi'i gweithredu yn nalgylch y Berwyn, sef cau Ysgol Gynradd y Parc a rhoi lle i'r disgyblion yn ysgol gyfagos O M Edwards, sydd wedi cael ei hymestyn a'i huwchraddio i

ddiwallu anghenion y disgyblion newydd. Mae'r wedd nesaf, sef y bwriad i greu Campws Dysgu Gydol Oes yn y Bala yn parhau i fod yn hyfyw a disgwylir y bydd y cynigion yn cael eu cadarnhau'n fuan.

4.2.11 Mae cynigion eisoes wedi cael eu gweithredu yn nalgylch Tywyn wrth gau ysgolion Abergynolwyn, Bryncrug, Llwyngwril a Llanegryn – datblygwyd ysgol ardal newydd ar gyfer disgyblion yr ardaloedd hyn sef Ysgol Craig y Deryn. Mae Ysgol Aberdyfi wedi cau hefyd ac mae disgyblion yr ardal hon bellach yn mynychu Ysgol Penybryn.

4.2.12 Caewyd Ysgol Llidiardau, Rhosirwaun hefyd oherwydd nifer isel iawn y disgyblion a rhoddwyd cynnig i ddisgyblion yr ardal hon fynychu un ai Ysgol Crud y Werin (Aberdaron) neu Ysgol Pont y Gof (Botwnnog). Bydd angen i unrhyw gynigion yn y dyfodol roi sylw i'r angen i ostwng nifer y llefydd gweigion yn ysgolion y Sir, yn ogystal ag ystyriaethau penodol eraill.

***Ynys Môn***

*Moderneiddio ysgolion Mon – Gogledd Orllewin Mon*

4.2.13 Yng nghyfarfod Pwyllgor ar yr 11eg Chwefror, 2013 penderfynwyd cefnogi Opsiwn 5(sef ysgol ardal newydd ar gyfer Llanfachraeth, Llanfaethlu a Llanrhuddlad) fel yr opsiwn y mae'r Pwyllgor Gwaith yn ei ffafrio ar gyfer ymgynghori'n ffurfiol ar adolygiad o'r ddarpariaeth addysg gynradd yng Ngogledd Orllewin Ynys Môn, yn amodol ar nodi cyllid a safle addas ar gyfer y datblygiad cyn cychwyn y broses ymgynghori ffurfiol.

*Moderneiddio ysgolion Mon – Ysgol Llanddona*

4.2.14 Yng nghyfarfod Pwyllgor Gwaith ar y 9fed Fedi 2013 penderfynnwyd:

- dilyn y drefn statudol ynglŷn â chynnig i gau Ysgol Llanddona ar 31 Awst 2014 a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llangoed;
- Uno dalgylch Ysgol Llanddona ac Ysgol Llangoed;
- Rhoi sylw eto yn y man i'r ddarpariaeth addysg gynradd yn Ne-ddwyrain Ynys Môn fel rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion gyda golwg ar sefydlu strategaeth tymor hir ar gyfer addysg gynradd yn yr ardal
- Derbyn mai'r lôn Dosbarth III heibio Bryn Bella a'r B5109 drwy Fiwmares yw'r unig lôn addas rhwng Ysgol Llanddona ac Ysgol Llangoed ac mai mân waith trwsio yn unig fydd yn cael ei wneud i'r gilfan y tu allan i Ysgol Llangoed i ddarparu ar gyfer y gwasanaeth bysys ysgol.
- Caewyd Ysgol Llanddona ar 31 Awst 2014.

*Moderneiddio Ysgolion Cynradd yn Ynys Môn - Caergybi a Chanolbarth*

4.2.15 Yng nghyfarfod Pwyllgor Gwaith ar y 10fed o Ragfyr, 2012 penderfynnwyd:

- Cymeradwyo'r egwyddorion a fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer y ddogfen ymgynghori a fydd yn sail i raglen moderneiddio ysgolion Môn.

- Adolygiad Ysgolion Cynradd Caergybi.
- Argymell Opsiwn 10 (cyfuno 3 ysgol sef Ysgol y Parc, Ysgol Llaingoch ac Ysgol Parch Thomas Ellis mewn ysgol newydd) fel yr opsiwn a ffafrir gan y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori ffurfiol;
- Y dylid lleoli'r ysgol gynradd newydd yng Nghaergybi ar safle Cybi;
- Cyn mynd allan i ymgynghori, bod adroddiad yn cael ei gyflwyno'n ôl i aelodau'r Pwyllgor Gwaith ar y materion canlynol:-pwy sydd biau'r tir yn y 3 safle; fforddiadwyedd, rheoli traffig a diogelwch ffyrdd, statws yr ysgol newydd a materion yn ymwneud â'r gorchymyn cadwraeth yn safle hen Ysgol Cybi yng Nghaergybi;
- Yn wyneb y sefyllfa gyfredol o ran niferoedd disgyblion yn y tair ysgol yng nghanol Môn, cadw pethau fel y maent ar hyn o bryd;
- Yn amodol ar gyflwyno a gweithredu'r ddeddfwriaeth berthnasol, rhoi awdurdod i'r Swyddogion Addysg adolygu dalgylch Llangefni a;
- Ailystyried y ddarpariaeth o addysg gynradd yng nghanol Môn yn nes ymlaen yn y rhaglen moderneiddio ysgolion hyd oni cheir eglurhad ar y sefyllfa o aran argaeledd adnoddau, adolygu'r dalgylchoedd, cyflwr adeiladau'r ysgolion a chanlyniad y rhaglen foderneiddio mewn rhannau eraill o'r Ynys;
- Bydd yr ysgol gynradd newydd yng Nghaergybi yn uno Ysgol y Parc, Ysgol Llaingoch ac Ysgol y Parchedig Thomas Ellis a bydd yn ysgol wirfoddol dan reolaeth yr Eglwys yng Nghymru.

## 4.3 ADDYSG – SEFYDLIADAU ADDYSG BELLACH

**Darpariaeth Bresennol**

*Prifysgol Cymru, Bangor*

4.3.1 Mae ystâd y Brifysgol yn cynnwys 345 hectar ar draws 15 o safleoedd, gyda'r rhan fwyaf ohonynt ym Mangor neu gerllaw y ddinas. Mae ardal y safle yn cynnwys yr ôl-troed a thir sy'n gysylltiedig ag adeiladau, yn ogystal â chaeau chwarae, y gerddi botaneg yn Nhreborth, a'r fferm yn Henfaes.

Ceir dros 160 o adeiladau sy'n amrywiol iawn o ran maint. Cyfanswm arwynebedd mewnol gros yr ystâd adeiledig yr adroddwyd arni yw 194,620m², gyda 131,273m² o fannau dibreswyl a 63,347m² yn breswyl. Gall y Brifysgol ddarparu ar gyfer bron i 2,400 o fyfyrwyr yn ei llety preswyl. Mae ceisiadau ar y gweill a fydd yn cynyddu maint yr ystâd, yn bennaf drwy ddatblygu Pontio sydd ag arwynebedd o 10,600m². Gweler dadansoddiad o'r ystâd ddibreswyl o ran mathau o ofod isod.

| **Cyfansoddiad yr ystâd ddibreswyl** | |
|---|---|
| **Math o ofod** | **% o gyfanswm yr arwynebedd net** |
| Dysgu | 23% |
| Ymchwil | 16% |
| Llyfrgell | 11% |
| Swyddfeydd | 24% |
| Arlwyo | 4% |

| | |
|---|---|
| Cymorth | 5% |
| Arall | 12% |
| Gwag | 6% |

*Coleg Menai*

4.3.2 Cafwyd y wybodaeth ganlynol o Strategaeth Ystadau Coleg Menai (2009). Mae'r coleg yn gweithredu o saith safle er mwyn darparu ar gyfer anghenion y gymuned yn y rhanbarth gogledd-orllewin Cymru.

| Lleoliadau Safleoedd Coleg Menai | | |
|---|---|---|
| **Safle** | **Lleoliad** | **Sir** |
| Y Maes | Caernarfon | Gwynedd |
| Safle Friars | Bangor | Gwynedd |
| Prif Safle | Bangor | Gwynedd |
| Prif Safle, Pencraig | Llangefni | Anglesey |
| Parc Menai | Bangor | Gwynedd |
| Penrallt | Llangefni | Ynys Môn |
| Tŷ Cyfle | Caergybi | Ynys Môn |

4.3.3 Y lleoliadau mwyaf yw’r Prif Safle ym Mangor a Safle Friars sydd gyferbyn yn Ffordd Ffriddoedd, ac maent yn gymharol ganolog i’r holl safleoedd eraill. Parc Menai yw'r trydydd safle mwyaf ac mae tua dwy filltir o’r Prif Safle ym Mangor.

4.3.4 Y Prif Safle yn Llangefni yw'r safle ail fwyaf, wedi’i leoli yng nghanol Ynys Môn. Mae hwn naw milltir o Fangor. Hefyd mae Penrallt yn Llangefni, tua milltir o’r Prif Safle. Mae'r Ganolfan Allgymorth yng Nghaergybi, sydd 25 milltir o Fangor. Mae’r un yng Nghaernarfon chwe milltir o Fangor.

4.3.5 Gweler isod grynodeb o'r arwynebedd llawr, oedran a daliadaeth y safleoedd.

| Safle | Arwynebedd Llawr (GIA $m^2$) | Oedran | Daliadaeth |
|---|---|---|---|
| **Y Maes, Caernarfon** | 794 | 2002 | Lesddaliad – Les 50 Blwyddyn |
| **Safle Friars, Bangor** | 2,968 | 1870 | Rhydd-ddaliad |
| **Prif Safle, Bangor** | 12,784 | 1960au yn bennaf | Rhydd-ddaliad |
| **Prif Safle, Llangefni** | 7,686 ynghyd â 4,200 yn y Ganolfan Adeiladu newydd | 1950au i 2008 | Rhydd-ddaliad |
| **Parc Menai, Bangor** | 2, 481 | 1990au | Lesddaliad hir (250 o flynyddoedd o 1999) |
| **Penrallt, Llangefni** | 689 | 19eg Ganrif | Rhydd-ddaliad gyda |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | chyfamodau yn cyfyngu defnydd i ddibenion addysgol |
| **Tŷ Cyfle, Caergybi** | 485 | 19eg Ganrif | Lesddaliad – les i ddod i ben yn 2023 |
| **Cyfanswm** | **27,887 m$^2$** | | |

**Darpariaeth a Gynlluniwyd ac Anghenion i'r Dyfodol**

*Prifysgol Bangor*

4.3.5 Mae'r Strategaeth Ystadau yn cynnwys y pum mlynedd nesaf i 2017. Ei bwrpas canolog yw cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion strategol Prifysgol Bangor a darparu ystâd a fydd yn cyfrannu at lwyddiant academaidd a chyflawni cenhadaeth y Brifysgol.

4.3.6 Mae datblygiadau mawr newydd ar y gweill. Mae'r Ganolfan Addysg Ryngwladol bron wedi'i chwblhau. Bydd Pontio a SEACAMS yn darparu cyfleusterau ardderchog. I gyd-fynd â'r prosiectau hyn, bydd y Brifysgol yn gweithio dros gyfnod y Strategaeth hon tuag at ddod â holl adeiladau craidd i fyny i safon dda fel bod myfyrwyr a staff yn mwynhau ansawdd cyson ac uchel o ddysgu ac amgylcheddau gwaith. Darperir cyfleusterau dysgu ac addysgu wedi'u huwchraddio er mwyn gwella profiad y myfyrwyr a chefnogi twf yn y meysydd allweddol a nodwyd yn y Cynllun Strategol.

4.3.7 Bydd y Strategaeth yn parhau i ddarparu cyd-leoliad, yn bennaf drwy gyfuno'r Coleg Gwyddorau Ffisegol a Chymhwysol (CoPAS) mewn cyfleusterau wedi'u huwchraddio yn Stryd y Deon. Yn ei dro, bydd hyn yn galluogi i ofod sy'n perfformio'n wael yn Nhŵr Alun Roberts gael ei ddymchwel gyda gostyngiadau cost a charbon.

4.3.8 Bydd llety preswyl ychwanegol trwy adnewyddu Garth a chynlluniau ar gyfer pentref myfyrwyr newydd yn helpu i ateb y galw sydd heb ei ddiwallu, ac yn cyfrannu at gynlluniau strategol ar gyfer rhyngwladoli a thwf ôl-raddedig. Bydd hefyd yn galluogi i'r hen neuaddau ar Safle'r Normal gael eu dadgomisiynu.

4.3.9 Amcanion Strategaeth Ystadau 2012 yw:

- Darparu profiad o ansawdd uchel i fyfyrwyr.
- Buddsoddi i ddarparu ystâd sy'n gyson dda ac addas i'r diben.
- Cefnogi ymchwil, menter a chynaliadwyedd.
- Gwarchod a gwella treftadaeth y Brifysgol.

4.3.10 Mae holl amcanion y Strategaeth Ystadau yn cael eu cefnogi gan gyfres o gynigion wedi'u cynllunio i fodloni blaenoriaethau'r Cynllun Strategol ac i ymdrin ag anghenion rhanddeiliaid.

4.3.11 Drwy weithredu prif elfennau'r Strategaeth, ceir gwelliannau mawr yng nghyflwr ac addasrwydd i bwrpas yr ystâd, a bydd y gyfran o ofod a

adeiladwyd ers 1980 wedi cynyddu oddeutu 50 y cant. Bydd y gofod sydd wedi'i raddio'n rhagorol neu'n dda o ran addasrwydd swyddogaethol wedi cynyddu'n sylweddol.

4.3.12 Mae'r rhan fwyaf o'r ystâd breswyl eisoes o safon uchel. Bydd gweithredu'r Strategaeth Llety Myfyrwyr yn cynyddu'r stoc i ateb y galw ac yn galluogi i neuaddau sy'n agosáu at ddiwedd eu hoes gael eu newid am ystafelloedd o ansawdd Ffriddoedd.

*Cynigion allweddol i gefnogi cyflwyno profiad myfyrwyr o ansawdd uchel (Amcan 1)*

- Pontio
- Uwchraddio mannau addysgu presennol - cyfleusterau arbenigol a rhai a rennir
- Gwelliannau i ofod llyfrgell a chreu mannau dysgu cymdeithasol ychwanegol
- Cwblhau'r Ganolfan Ryngwladol a datblygu cyfleusterau cymorth i fyfyrwyr yn Rathbone
- Adnewyddu Garth ar Ffordd y Coleg i ddarparu llety preswyl
- Ymchwilio'r cyfleoedd ar gyfer cyflwyno preswylfeydd ychwanegol i fyfyrwyr sydd â lle i hyd at 600 a nodwyd gan y Strategaeth Llety Myfyrwyr - Cwrdd â galw ychwanegol a galluogi i breswylfeydd sy'n dod i ddiwedd eu hoes gael eu dadgomisiynu, fel Neuaddau Safle'r Normal. Bydd y cyfle i ddatblygu'r Santes Fair hefyd yn dod â'r safle yn ôl i ddefnydd buddiol.
- Uwchraddio a darparu cyfleusterau chwaraeon ychwanegol – bydd ailwampio Maes Glas a mynediad i ardal hyfforddi 3G yn cefnogi cynnydd mewn cyfranogiad, yn ogystal â darparu allgymorth a chyfleoedd cydweithredu.
- Rhoi presenoldeb yng nghanol y ddinas ar gyfer Cymraeg i Oedolion

*Cynigion allweddol i gefnogi darpariaeth ystâd sy'n gyson dda ac addas i'r diben (Amcan 2)*

- Parhad y Rhaglen Argraff Gyntaf
- Creu cyfleusterau addas i'r diben ar gyfer Cerddoriaeth ar Ffordd y Coleg
- Rhaglen o uwchraddio Stryd y Deon i alluogi cyd-leoli CoPAS
- Uwchraddio ac ailgyflunio'r Adeilad Coffa i ddarparu cyfleusterau rhyng-ddisgyblaethol modern mewn lleoliad canolog o fewn y Safle Gwyddoniaeth
- Creu gofod ar Safle'r Normal ar gyfer ehangu gofod addas i'r diben ar gyfer yr Ysgol Chwaraeon, Gwyddorau Iechyd ac Ymarfer (SHES), naill ai drwy addasu'r gofod presennol neu adeiladu llety newydd
- Gweithio i wella cyflwr yr adeiladau allweddol sydd i'w cadw ar bob campws

*Cynigion allweddol i gefnogi gwaith ymchwil, menter a chynaliadwyedd (Amcan 3)*

- Hybu cynaliadwyedd trwy effeithlonrwydd ynni a gofod
- Cwblhau SEACAMS ym Mhorthaethwy
- Addasu Ardudwy ar Safle'r Normal i ddarparu cyfleusterau newydd ar gyfer y Sefydliad Ymchwil Gofal Meddygol a Chymdeithasol (IMSCaR)
- Adleoli Ymwybyddiaeth Ofalgar o Stryd y Deon
- Dymchwel Tŵr Alun Roberts yn dilyn cyfuno CoPAS yn Stryd y Deon
- Datblygu Cynllun Teithio
- Darpariaeth ar gyfer ail ganolfan ddata

*Cynigion allweddol i gefnogi a gwella treftadaeth y Brifysgol (Amcan 4)*

- Prif Adeilad y Brifysgol - rhaglen o adnewyddu graddol dros y cyfnod strategaeth hon a thu hwnt
- Adnewyddu Tanrallt
- Uwchraddio ac ailfodelu'r Adeilad Coffa
- Adeilad George – ail-leoli labordy a'r gofod sy'n llawn offer
- Adfer Ffermdy Ffriddoedd i'r dyfodol

4.3.13 Diffiniwyd cyfres o opsiynau yn ystod datblygiad y strategaeth i brofi potensial pob un i ymdrin â'r materion allweddol ar gyfer dyfodol yr ystâd. Yn dilyn asesiad o'r opsiynau, dewiswyd yr opsiwn a ffefrir fel yr amlinellir yn y tabl isod. Bydd angen gwneud astudiaethau dichonoldeb ar yr holl brif gynigion i sicrhau y gellir cydymffurfio â phen isaf yr amrediad cost ac na pheryglir cwmpas llawn cynigion y strategaeth.

| **Elfennau Dewis a ffefrir** | **Amserlen amcangyfrifiedig** |
|---|---|
| **Darparu profiad o ansawdd uchel i fyfyrwyr** | |
| Pontio: gofod addysgu, dysgu, perfformiad, mannau cymdeithasol a rhyng-ddisgyblaethol o ansawdd uchel | Cwblhau 2014 |
| Addasu Rathbone: i ddarparu'r Ganolfan Myfyrwyr Rhyngwladol a chyfleusterau cymorth myfyrwyr eraill Cam 3 | 2012-13 |
| Gwelliannau i ystafelloedd addysgu: Rhaglen i uwchraddio'r mannau addysgu sydd ar yr amserlen ganolog | Blynyddol dros gyfnod y strategaeth |
| Ehangu'r rhaglen uwchraddio addysgu i gynnwys gofod addysgu arbenigol a gofod addysgu nad yw ar yr amserlen ganolog | Blynyddol dros gyfnod y strategaeth |
| Strategaeth dysgu cymdeithasol a llyfrgelloedd | 2012/13-2014/16 |
| Cyfleusterau chwaraeon gwell ac ychwanegol | 2012/13-2013/14 |
| Presenoldeb i Gymraeg i Oedolion yng nghanol y dref (i'w ddatblygu) | |

| **Elfennau Dewis a ffefrir** | **Amserlen amcangyfrifiedig** |
|---|---|
| **Buddsoddi i ddarparu ystâd dda, addas i'r diben** | |
| Argraffiadau Cyntaf: Rhaglen i wella golwg yr ystâd | Blynyddol dros gyfnod y strategaeth |
| Cerddoriaeth: ailwampio'r adeilad presennol a darparu lle cysylltiedig ar gyfer anecs | 2012/13-2014/15 |
| Ailfodelu Stryd y Deon i ad-drefnu a rhesymoli lle ar gyfer Peirianneg Electronig a Chyfrifiadureg, darparu gofod hyblyg, addas i'r diben ar gyfer ar gyfer Cemeg ac o bosibl darparu gofod ar gyfer swyddfeydd hyblyg ar gyfer gwasanaethau, megis Cyllid a Marchnata | Gwaith cychwynnol yn 2012/13 gyda phrif waith yn 2015/16 i 2017/18 |
| Adeilad Coffa: Ailfodelu i gynnwys WINR cyfunol (o Alun Roberts), Biogyfansoddion (uned Mona gynt) a CAZS. Efallai y bydd angen caniatáu ar gyfer rhywfaint o ail-fodelu yn Thoday? | Gwaith cychwynnol yn 2012/13 gyda phrif waith yn 2013/14-2015/16 |
| 4a: Elfen o ailfodelu gofod Addysg i resymoli'r defnydd presennol. Addasu Trefenai neu ofod arall ar Safle'r Normal i ddarparu ar gyfer ehangu a chreu gofod addas i'r diben i SHES. Elfen o ailfodelu yn Adeilad George i addasu gofod arbenigol a adawyd gan SHES i ddefnyddiau pwrpas cyffredinol eraill. | O 2012/13 gyda phrif waith yn 2013/14-2015/16 |
| Gweithio i leihau ôl-groniad gwaith cynnal a chadw a gwella cyflwr, gan gynnwys Thoday, Brambell, Adeilad Coffa a Stryd y Deon | Rhaglen dreigl trwy gydol cyfnod y strategaeth |
| **Cefnogi menter ymchwil a chynaliadwyedd** | |
| SEACAMS: Creu cyfleusterau ymchwil, labordai a chyfrifiadureg | Cwblhau haf 2013 |
| Ardudwy (addasu ar gyfer IMSCAR) | 2012/13 |
| Ail-leoli Ymwybyddiaeth Ofalgar o Stryd y Deon | 2013-14 |
| Alun Roberts: dymchwel | Cynllunio i ddymchwel 2017/18 |
| Darpariaeth ar gyfer ail ganolfan ddata | O 2012-13 |
| **Gwarchod a gwella treftadaeth y Brifysgol** | |
| Prif Adeilad y Brifysgol: uwchraddio ac adnewyddu | 2012/13-2017/18 |
| Tanrallt: uwchraddio gydag estyniad posibl | 2012/13-2014/15 |

| Elfennau Dewis a ffefrir | Amserlen amcangyfrifiedig |
|---|---|
| Uwchraddio Ffermdy Ffriddoedd | O 2012-13 |

4.3.14 Drwy weithredu prif elfennau'r Strategaeth, bydd gwelliannau mawr yng nghyflwr ac addasrwydd i ddiben yr ystâd. Bydd maint y gofod dibreswyl a ddynodir yn ofod cyflwr newydd neu foddhaol wedi bron ddyblu, a bydd y gyfran o ofod a adeiladwyd ers 1980 wedi cynyddu oddeutu 50 y cant. Bydd y gofod a ddynodir fel rhagorol neu dda o ran addasrwydd swyddogaethol wedi cynyddu'n sylweddol.

| Dangosyddion perfformiad allweddol | Ystâd ddibreswyl 2010-11 | Proffil ystâd rhagamcanedig |
|---|---|---|
| Arwynebedd mewnol gros dibreswyl m2 | 131,273 | 135,768 |
| Arwynebedd mewnol net dibreswyl m2 | 84,204 | 87,090 |
| Cyflwr % dibreswyl m² yng Nghod A & B | 47% | 89% |
| Oed % dibreswyl a adeiladwyd ar ôl 1980 | 20% | 29% |
| % addasrwydd swyddogaethol m² yng Nghategori 1 & 2 | 75% | 87% |

4.3.15 Mae Cynllun Tair Blynedd Cyngor Gwynedd (2011-2014) yn nodi'r prosiectau canlynol fel rhan o bartneriaeth â'r Brifysgol:

- Cefnogi'r Brifysgol i sefydlu Cyfleuster Ymchwil Clinigol ym Mangor, cydweithredu i ddatblygu'r budd economaidd ehangach
- Bod yn rhagweithiol o ran cydweithredu gyda'r cyrff a sefydliadau perthnasol er mwyn sefydlu Ysgol Feddygol ym Mhrifysgol Bangor, ac i ddatblygu cyfleoedd i leoli gwasanaethau iechyd y cyd

4.3.16 Mae Fframwaith Ynys Ynni Môn (2010) yn nodi bod datblygiadau seilwaith o bwys yn cael eu cynllunio fel rhan o'r rhaglen, ac mae un o'r rhain yn cynnwys dau ddatblygiad defnydd cymysg mawr fel rhan o'r Brifysgol, sydd â'r bwriad o gynnwys llety i fyfyrwyr ochr yn ochr â defnyddiau cyflogaeth gan gynnwys manwerthu, hamdden, a pharciau busnes.

*Coleg Menai*

4.3.17 Mae cyfres o faterion allweddol yn codi o gyfuniad o effaith ystadau ar flaenoriaethau strategol y coleg a'r casgliadau ar berfformiad yr ystâd bresennol.

4.3.18 *Lleoliad a Dosbarthu* - Mewn strategaethau blaenorol, archwiliodd y coleg y senario o atgyfnerthu safle a daeth i'r casgliad mai model aml-gampws yw'r gorau bosibl i gyflawni ei amcanion strategol. Mae hyn yn dal i fod yn wir. Mae'r rhwydwaith presennol o safleoedd yn helpu i sicrhau'r mynediad uchaf bosibl i lawer o fyfyrwyr, ac mae'n annhebygol y bydd y coleg yn dilyn polisi o resymoli mawr yn y dyfodol agos. Lleolir safleoedd y coleg yn strategol ar draws Gwynedd ac Ynys Môn. Mae prif safleoedd y coleg ym Mangor a Llangefni yn ganolog i Wynedd ac Ynys Môn. Mae gan Fangor gysylltiadau ffordd a rheilffordd rhagorol, tra bod Llangefni â mynediad ffyrdd da.

4.3.19 Fodd bynnag, er bod y rhwydwaith o safleoedd yn cynnig llawer o fanteision, ni fydd hyn yn atal adolygiad o ddyfodol safleoedd ac adeiladau unigol bach sydd ag addasrwydd swyddogaethol a/neu gyflwr gwael, megis Tŷ Cyfle yng Nghaergybi. Er bod presenoldeb yng Nghaergybi yn bwysig i'r coleg, gallai adeilad arall ddarparu gwell addasrwydd i ddiben. Hefyd adolygir dyfodol y safleoedd nad ydynt yn cynnig unrhyw fanteision daearyddol, megis Parc Menai ym Mangor a Phenrallt yn Llangefni, yn amodol ar ddarparu llety amgen boddhaol ar y prif safleoedd.

4.3.20 O ran dosbarthiad defnyddiau rhwng safleoedd, mae’r Prif Safle yn Llangefni yn darparu cyrsiau crefft a galwedigaethol ac mae mewn sefyllfa addas ar gyfer cysylltiadau â diwydiannau trwm mawr yn yr ardal. Mae Bangor yn canolbwyntio ar gyrsiau mwy technegol ac uwch. Mae hefyd yn rhedeg cyrsiau gwasanaethau/ lletygarwch sy’n fwy perthnasol i ardaloedd poblog y ddinas.

4.3.21 Eisoes cafwyd rhesymoli o ddefnyddiau rhwng safleoedd y coleg, ac mae hyn yn parhau, er enghraifft, gyda'r Ganolfan Adeiladu newydd yn Llangefni. Adolygir y potensial ar gyfer rhesymoli yn flynyddol er mwyn sicrhau bod y defnydd gorau yn cael ei wneud o'r cyfleusterau, ac y gall myfyrwyr gael y budd mwyaf o'r cyrsiau a ddarperir a rhwyddineb mynediad at y coleg. Byddai datblygu Canolfan Cyfryngau Creadigol ym Mangor yn lleihau’r ddarpariaeth sy’n cael ei rhannu rhwng safleoedd ac yn helpu i ddileu dyblygu cyfleusterau ar draws tri safle.

4.3.22 Cydweithio a phartneriaeth - Mae'r coleg yn cofleidio’n llawn y cyfleoedd i gydweithio a phartneriaeth gydag ysgolion a diwydiannau lleol. Gwelir hyn fel cam ymlaen o ran datblygu statws y coleg ac atal dyblygu gwastraffus o adnoddau. Bydd hyn yn galluogi sefydliadau i ddarparu gwell cyfleusterau a chyfleoedd er budd myfyrwyr.

4.3.23 Menter gyfredol sydd gan y coleg yw darparu Canolfan Ynni a Gwneuthuriad newydd ar safle Llangefni. Mae'r cyfleusterau weldio presennol yn gwbl annigonol; mae’r gweithdai wedi’u lleoli mewn adeiladau is-safonol ac nid oes ganddynt gyfleusterau i ddarparu cyrsiau gwneuthuriad.

4.3.24 Ystyrir cynaliadwyedd fel y grym gyriadol yn erbyn newid yn yr hinsawdd; bydd technoleg newydd yn golygu arferion gwaith newydd. Mae'r coleg yn cynnal trafodaethau gyda'r Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear (Rhanbarth y

Gogledd) i ddatblygu cyfleusterau hyfforddi er mwyn paratoi ar gyfer dadgomisiynu gorsaf bŵer yr Wylfa. Gyda'r adnoddau cywir, cynigir y gellir defnyddio'r adeilad fel canolfan ragoriaeth ar gyfer hyfforddiant mewn agweddau ar ddadgomisiynu, ac o bosibl yn y tymor hir i ddatblygu cyfleusterau hyfforddi i gynorthwyo adeiladu'r orsaf ynni newydd arfaethedig ar safle'r Wylfa. Yn naturiol, mae Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear yn ei weld yn beth cyffrous bod gobaith o gael cyfleuster hyfforddi "ar garreg eu drws" ac maent yn awyddus i hyrwyddo cynaliadwyedd.

4.3.25 Yn ychwanegol at y Ganolfan Ynni a Gwneuthuriad newydd mae'r portffolio cyfredol o gyrsiau megis cyrsiau peirianneg, rheoli a chrefft yn llwyfan ardderchog i ddarparu ar gyfer yr hyfforddiant ychwanegol a allai fod yn angenrheidiol ar gyfer dadgomisiynu ac adeiladu safle newydd.

4.3.26 Byddai darparu Canolfan Cyfryngau Creadigol newydd hefyd yn hyrwyddo cyfleoedd cydweithio a phartneriaeth â darparwyr eraill, gan gynnwys ysgolion a sefydliadau addysg uwch, a chyflogwyr lleol. Byddai'n cyflwyno cyfleusterau gwell ar gyfer y bartneriaeth alwedigaethol 14-16, yn gwneud cyfraniad at y llwybr dysgu 14-19, ac yn creu cyfle i rannu adnoddau gyda Phrifysgol Bangor.

4.3.27 *Oedran, cyflwr ac addasrwydd swyddogaethol adeiladau* - mae angen cyllid digonol o fewn cyfnod y strategaeth o ddeng mlynedd i atal dirywiad pellach yn y stoc adeiladau presennol. Cynhwysir crynodeb o'r amcangyfrifon costau sydd eu hangen i ddod â chyflwr yr adeiladau i "Radd B" derbyniol. Cyfanswm cost cefnogi'r gwaith cynnal a chadw ar draws ystâd cyfan y coleg yw £6,402,980. Mae'r swm hwn yn net o wariant cynlluniedig a chyfalaf ar gynnal a chadw. Pan wneir lwfans am hynny, mae cyfanswm y swm yn codi i tua £8.8 miliwn.

4.3.28 Er mwyn cyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol, mae'r cyfleusterau Cyfryngau Creadigol a'r cyfleusterau Weldio ym Mharc Menai a Llangefni yn y drefn honno angen sylw ar frys i ymdrin â chyfleusterau addysgu is-safonol yn y ddau faes rhaglen. O ystyried safon wael iawn yr adeiladau presennol, yr ateb mwyaf effeithiol fyddai darparu cyfleusterau pwrpasol newydd a'r seilwaith sydd ei angen i gyflawni dulliau addysgu effeithiol.

4.3.29 Os ceir adnoddau digonol, byddai'n bosibl uwchraddio'r adeiladau coleg sy'n weddill a'u haddasu i gwrdd ag anghenion y dyfodol, er y bydd angen adolygu'r mater hwn yn rheolaidd.

4.3.30 <u>Dadansoddiad o anghenion cwricwlwm</u>

Trafodwyd anghenion y dyfodol gyda phob Cyfarwyddwr Cyfadran i bennu unrhyw ddiffygion rhwng amcanion y coleg a'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer y meysydd rhaglen. Crynhoir y canfyddiadau isod yn ôl Cyfadran.

4.3.31 <u>Lefel A</u>

- Prinder lle.
- Cydweithio gydag ysgolion lleol i ddarparu detholiad pwnc ehangach.
- Cyfleusterau i alluogi myfyrwyr aeddfed gael mynediad at gyfleusterau addysg drwy ddefnyddio canolfannau allanol ac ysgolion nos.
- Mynediad i gyfrifiaduron a chynnydd yn y ddarpariaeth TGCh.
- Gwell llety addysgu.

4.3.32 Technoleg

- Prinder lle, yn enwedig cyfleusterau ar gyfer cyflwyno awtotroneg yn safle Llangefni.
- Rhesymoli’r ganolfan blymio yn safle Bangor (ymdrin â hyn yn 2008-09).
- Cyfleusterau is-safonol ar gyfer cyrsiau weldio yn safle Llangefni.
- Dim cyfleusterau gwneuthuriad.
- Yr angen am gyfleusterau i ddarparu cyrsiau cynaliadwyedd.
- Yr angen i feithrin mwy o bartneriaeth gyda'r diwydiannau lleol yn yr ardal yn enwedig yr NDA.
- Mynediad i gyfrifiaduron a chynnydd yn y ddarpariaeth TGCh.
- Gwell llety addysgu.

4.3.33 Y Celfyddydau, Cyfryngau a Chwaraeon

- Prinder lle.
- Mae'r neuadd chwaraeon bresennol dros 30 mlwydd oed ac mae angen gwelliant sylweddol
- Angen cyfleusterau newid. Mae angen cyfleusterau storio hefyd i gadw offer chwaraeon ac eitemau gweithgareddau awyr agored eraill.
- Hefyd angen gofod addysgu.
- Mae angen gwella a moderneiddio ystafelloedd dosbarth presennol.
- Mynediad i gyfrifiaduron a chynnydd yn y ddarpariaeth TGCh.
- Prinder lle yn atal llawer o fyfyrwyr rhag cofrestru ar gyrsiau Cyfryngau a Chelfyddydau Creadigol ym Mharc Menai. Darpar fyfyrwyr yn cael eu gwrthod oherwydd yr adnoddau gofod annigonol. Mae'r cyfarpar Cyfryngau Creadigol presennol yn hen ffasiwn ac mae angen moderneiddio.

4.3.34 Diwydiannau Gwasanaethu

- Mynediad i gyfrifiaduron a chynnydd yn y ddarpariaeth TGCh.
- Prinder lle.
- Cynyddu cyfleusterau cymorth i fyfyrwyr.
- Gwella’r gwasanaeth llyfrgell.

4.3.35 Oedolion a'r Gymuned

- Mynediad i gyfrifiaduron a chynnydd yn y ddarpariaeth TGCh.
- Gwell mynediad/cyfleusterau parcio, gan gynnwys mynediad er mwyn cydymffurfio â DDA.
- Gwell llety addysgu.

4.3.36 Gwasanaethau i Fusnes

- Prinder lle.
- Mynediad i gyfrifiaduron a chynnydd yn y ddarpariaeth TGCh.
- Amgylchedd masnachol ac oedolion i gyflenwi cyrsiau arbenigol.
- Gwell mynediad/cyfleusterau parcio, gan gynnwys mynediad er mwyn cydymffurfio â DDA.

4.3.37 Cymorth i Ddysgwyr

- Mynediad i gyfrifiaduron a chynnydd yn y ddarpariaeth TGCh.
- Cynyddu cyfleusterau cymorth i fyfyrwyr gan gynnwys ardaloedd cwnsela.
- Gwella'r cyfleusterau llyfrgell a'u gwneud yn gydnaws â'r DDA.
- Darparu gwell cyfleusterau ardal a storio gweithio i'r Adran AVA.

4.3.38 Mae'n amlwg mewn llawer o achosion bod "prinder lle" yn broblem sylweddol. Mae'r coleg yn rhagweithiol yn adolygu ei weithdrefnau rheoli gofod er bod ei lefelau defnydd yn barhaus uwchben y cymedr sector. Fodd bynnag, ni fydd mesurau rheoli gofod yn ymdrin â diffygion gofod sylweddol, wedi'i gyfuno ag addasrwydd i'r diben y gofod presennol ym meysydd allweddol Cyfryngau Creadigol ym Mharc Menai a'r cyfleusterau Weldio yn Llangefni. Mae'r rhain angen buddsoddiad cyfalaf mewn cyfleusterau newydd.

4.3.39 Yn gryno, y blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol yw:

- Buddsoddi mewn uwchraddio cyflwr adeiladau.
- Ailfodelu a gwella addasrwydd i ddiben adeiladau presennol, megis yr ailwampio cynlluniedig i Floc J ar y Prif Safle ym Mangor i ddarparu canolfan TG galw heibio newydd.
- Darparu cyfleusterau newydd ac estynedig lle mae gofod presennol yn is-safonol, cyfyng ac yn methu â darparu ar gyfer ehangu arfaethedig y blaenoriaethau dysgu rhanbarthol a strategol. Mae cynigion allweddol yn cynnwys darparu cyfleusterau ar gyfer Ynni a Gwneuthuriad ac ar gyfer y Cyfryngau Creadigol.

4.3.40 Fel rhan o Fframwaith Ynys Ynni Môn (2010), mae'r datblygiadau mawr a gynigir ar gyfer Llangefni yn cynnwys ehangu campws Coleg Menai gydag adeiladu Canolfan Ynni a Gwneuthuriad newydd ar safle Penyrorsedd.

| **Goblygiadau i'r CDLIC** |
|---|
| • Mae angen i'r seilwaith ysgolion presennol fod yn ddigonol i ymdopi â'r cynnydd arfaethedig yn y boblogaeth oherwydd y lefel o dwf tai sydd angen i gyflenwi'r CDLI ar y Cyd.<br><br>• Dylid ystyried y ffigyrau capasiti ysgolion diweddaraf a strategaeth foderneiddio ysgolion y Cyngor fel rhan o'r broses o ddyrannu safleoedd ar gyfer datblygiadau tai. Dylid edrych yn fwy ffafriol ar leoliadau sydd o fewn dalgylchoedd ysgolion lle mae lleoedd gwag. |

- Pan fo'r CDLl ar y Cyd yn cyfeirio datblygiad i ardaloedd lle nad oes digon o gapasiti yn yr ysgolion sy'n gwasanaethu ardaloedd hynny, dylai hwyluso datblygiad seilwaith priodol i gwrdd ag anghenion y boblogaeth.

- Dylai cynlluniau datblygu newydd gan yr Awdurdodau Addysg hysbysu'r CDLl ar y Cyd ar ôl ymgynghori â Gwasanaeth Cynllunio y ddau Gyngor.

- Dylai'r CDLl ar y Cyd sicrhau y diogelir safleoedd ysgolion, a galluogi ehangu ysgolion presennol i ddarparu gwell cyfleoedd addysg, a chaniatáu eu hailddefnyddio petaent yn cael eu dynodi fel rhai nad oes eu hangen mwyach.

- Dylid ystyried datblygu fesul cam pan fo cynhwysedd cyfleusterau addysgol yn annigonol.

- Dylai'r angen am gyfraniadau gan ddatblygwyr at gyfleusterau addysgol gael eu hymgorffori mewn polisïau lle bo'n briodol, er mwyn sicrhau darpariaeth o adnodd addysg effeithlon i'r boblogaeth leol.

## 4.4 CYFLEUSTERAU IECHYD

**Darpariaeth Bresennol**

4.4.1 Yn ystod 2008-09 ymgynghorodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eang ar ddiwygio'r GIG a daethpwyd i gytundeb ynglŷn â diddymu'r un ar hugain o Fyrddau Iechyd Lleol a saith Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru, ac yn eu lle cael chwe Bwrdd Iechyd Lleol. Ym mis Hydref 2009 daeth holl swyddogaethau'r Byrddau Iechyd Lleol a'r Ymddiriedolaethau presennol yng Ngogledd Cymru at ei gilydd i ffurfio Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr (BILIPBC). Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru, yn darparu ystod lawn o wasanaethau ysbyty acíwt sylfaenol, cymunedol, ac iechyd meddwl ar gyfer poblogaeth o oddeutu 676,000 o bobl ar draws chwe sir Gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam) yn ogystal â rhai rhannau o ganolbarth Cymru, Swydd Gaer a Swydd Amwythig. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi tua 18,000 o staff ac mae ganddo gyllideb o oddeutu £1.1 biliwn.

4.4.2 O ran darparwyr **gofal sylfaenol,** mae'r rhwydwaith lleol yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn cynnwys:

| | Gwynedd | Ynys Môn |
|---|---|---|
| **Meddygfeydd Meddygon Teulu** | 43 | 20 |
| **Arferion Deintyddol (gan gynnwys tu allan i'r GIG)** | 21 | 12 |
| **Fferyllfeydd** | 29 | 13 |
| **Optegwyr** | 21 | 6 |

*Gwefan Betsi Cadwaladr (Mehefin 2012)*


4.4.3 Mae darparwyr **gofal eilaidd** Gwynedd yn cynnwys **ysbytai lleol** sef Ysbyty Gwynedd ym Mangor, yr ysbyty mwyaf a dyma'r brif ganolfan weinyddol. Mae'n cwmpasu ardal ddaearyddol fawr sy'n ymestyn o Amlwch yn y gogledd i Dywyn yn y de ac o Bwllheli yn y gorllewin i Landudno yn y dwyrain. Ysbytai lleol eraill sy'n darparu gwasanaethau iechyd i drigolion Gwynedd ac Ynys Môn yw Ysbyty Llandudno, Ysbyty Maelor, Ysbyty Bronglais, gyda phob un ohonynt wedi'u lleoli tu allan i Ardal y Cynllun.

4.4.4 Caiff y rhain eu cefnogi gan rwydwaith o **ysbytai cymunedol**:

- Ysbyty Eryri, Caernarfon
- Ysbyty Bryn Beryl, Pwllheli
- Ysbyty Alltwen, Tremadog
- Ysbyty Dolgellau (Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri)
- Ysbyty Tywyn
- Ysbyty Ffestiniog, Blaenau Ffestiniog
- Ysbyty Cefni, Llangefni
- Ysbyty Penrhos Stanley, Caergybi

4.4.5 Mae’r ffigwr isod yn cymharu proffil oedran ystâd y Bwrdd Iechyd yn 2010/11 gyda 2001/02. Gellir gweld bod rhaglen moderneiddio ystâd y Bwrdd Iechyd dros y 10 mlynedd diwethaf wedi arwain at ostyngiad mewn cyfleusterau 'Cyn 1948' o 24% i 14% a chynnydd mewn cyfleusterau 'ar ôl 1995' o 2% i 34%.

**Proffil oedran yr ystâd 2001/02 a 2010/11**




4.4.6 Mae Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn darparu gofal brys a thriniaeth cyn-ysbyty ledled Cymru. Mae'r Gwasanaeth Ambiwlans yn mynychu mwy na 250,000 o alwadau argyfwng bob blwyddyn, dros 50,000 o alwadau brys a chludiant i dros 1.3 miliwn o gleifion nad ydynt yn rhai brys i dros 200 o ganolfannau triniaeth ledled Cymru (a Lloegr).

**Darpariaeth a Gynlluniwyd ac Anghenion i’r Dyfodol**

4.4.7 Ar hyn o bryd mae Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn cynnal ymgynghoriad ar yr adolygiad o wasanaethau iechyd a ddarparwyd yng Ngogledd Cymru yn ystod mis Awst a mis Hydref 2012. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn llywio'r gwaith o ddatblygu eu Strategaeth Ystadau maes o law. Mae'r agweddau ar y ddogfen ymgynghori sy'n berthnasol i Ynys Môn a Gwynedd fel a ganlyn:

*Ysbytai Acíwt*

4.4.8 Ni chynigir newidiadau sylweddol yn achos y rhan fwyaf o'r gofal a ddarperir yn yr ysbytai acíwt (Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Maelor Wrecsam). Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na fydd newidiadau yn y ffordd mae'r ysbytai hyn yn gweithredu a'r ffordd y bydd cleifion yn derbyn gofal. Bydd gan bob un o'r ysbytai Adran Achosion Brys, uned dan arweiniad bydwragedd a gaiff ei chefnogi gan wasanaeth mamolaeth dan arweiniad meddygon ymgynghorol, ac Uned Gofal Arbennig i Fabanod/Uned Dibyniaeth Fawr. Bydd ganddynt hefyd wasanaethau ysbyty ar gyfer plant o dan arweiniad ymgynghorwyr, gwasanaethau trawma ac orthopedig, gwasanaethau gynaecolegol, a llawdriniaeth gyffredinol heb fod yn ddewisol. Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar faint o feddygon sydd ar gael i'w recriwtio.

4.4.9 Bydd cleifion yn parhau i ddefnyddio gwasanaethau gan sefydliadau eraill y GIG y tu allan i Ogledd Cymru lle mae hyn yn briodol, gan gynnwys Ysbyty Countess of Chester, Ysbyty Robert Jones ac Agnes Hunt (yng Ngobowen), Ysbyty Plant Alder Hey, Ysbyty Gogledd Swydd Stafford, Ysbyty'r Galon a'r Frest Lerpwl, ac ysbytai Christie a Clatterbridge ar gyfer triniaeth canser arbenigol, fel enghreifftiau.

*Ysbytai Cymuned*



4.4.10 Ar draws Gogledd Cymru, mae ysbytai cymunedol mewn lleoliadau amrywiol a chafodd llawer o'r rhain eu hadeiladu cyn i'r GIG modern gael ei sefydlu. Fodd bynnag, mae rhai ohonynt yn awr yn hen ac angen llawer o waith cynnal a chadw; nid yw rhai ohonynt yn addas i ddarparu'r ystod lawn o wasanaethau sydd eu hangen mewn ardaloedd lleol.

4.4.11 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi nifer o ysbytai a all weithredu fel ysbyty "canolbwynt" mewn ardaloedd lleol. Yma byddant yn darparu:

---

- Gwelyau cleifion mewnol
- Gwasanaethau Mân Anafiadau - saith diwrnod yr wythnos
- Gwasanaethau Cleifion Allanol
- Ffisiotherapi, therapi galwedigaethol a gwasanaethau therapi eraill
- Pelydr-x - bum niwrnod yr wythnos

4.4.12 Bydd y rhan fwyaf o ysbytai cymunedol nad ydynt yn ganolbwyntiau yn parhau i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau cleifion mewnol, cleifion allanol, therapïau a gwasanaethau eraill. Yr ysbytai sy'n cael eu cynnig fel canolbwyntiau neu brif ganolfannau o wasanaethau i gymunedau yw fel a ganlyn. Rhagwelir y bydd y newidiadau i ysbytai cymuned yn cychwyn o Ebrill 2013.

- Ysbyty Penrhos Stanley
- Ysbyty Gwynedd
- Ysbyty Alltwen
- Ysbyty Dolgellau ac Abermaw
- Ysbyty Llandudno
- Ysbyty Glan Clwyd
- Ysbyty Cymuned Treffynnon
- Ysbyty Cymuned Glannau Dyfrdwy
- Ysbyty Maelor Wrecsam
- Inffyrmari Dinbych

*Iechyd Meddwl Pobl Hŷn - Gwynedd ac Ynys Môn*

4.4.13 Mae’r newidiadau arfaethedig i'r gwasanaethau ar gyfer iechyd meddwl pobl hŷn yng Ngwynedd ac Ynys Môn fel a ganlyn:

- Cryfhau timau iechyd meddwl cymunedol i ddarparu oriau hirach o wasanaeth yn ogystal â chymorth i gleifion mewn cartrefi gofal
- Cryfhau gwasanaethau cyswllt nyrsys pan fo cleifion yn symud rhwng gwasanaethau cymunedol ac Ysbyty Llandudno ac Ysbyty Gwynedd
- Cryfhau gwasanaethau cof i gynorthwyo diagnosis cynnar
- Cefnogaeth mewn argyfwng – bydd timau triniaeth yn y cartref yn rhoi cymorth ychwanegol i bobl hŷn

*Gwasanaethau i bobl sy'n byw yn ardal Tywyn*

4.4.14 Mae pobl sy'n byw yn ardal Tywyn o Wynedd yn defnyddio rhai o'r gwasanaethau iechyd a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda. Gall hyn fod yn y gymuned, yn Ysbyty Cymuned Tywyn, neu yn Ysbyty Bronglais neu gyfleusterau eraill a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno achos busnes i Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r cyfleusterau yn Ysbyty Tywyn.

4.4.15 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda Hywel Dda i sicrhau bod gwasanaethau'n diwallu anghenion trigolion yr ardal hon. Cynhwysa hyn edrych ar lwybrau gofal cleifion. Weithiau gall fod yn well i gleifion fynd i Wrecsam neu i Ogledd Orllewin Lloegr yn hytrach nag i Dde Cymru pan fo angen gwasanaethau arbenigol mewn ysbytai. Bydd BIPBC yn gweithio gyda Hywel Dda ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i alluogi hyn.

*Ysbyty Coffa Ffestiniog*

4.4.16 Ar hyn o bryd mae gan Ysbyty Coffa Ffestiniog 12 o welyau i gleifion mewnol (8 yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd); gwasanaethau pelydr-X am bedair sesiwn yr wythnos; uned mân anafiadau ar agor saith diwrnod yr wythnos o 8am-4pm (a ddefnyddir ar gyfartaledd gan 3 o bobl y dydd, uned wedi ei chau dros dro); therapi galwedigaethol a ffisiotherapi. Darperir rhai gwasanaethau cleifion allanol a gwasanaethau deintyddol yn y ganolfan iechyd gyferbyn â'r ysbyty.

4.4.17 Mae'r defnydd o welyau ysbyty a'r uned mân anafiadau wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf a byddai angen newid mawr i'r adeilad ei hun i wella ei gyflwr ffisegol. Bu rhaid i BIPBC gymryd camau ar adegau i leihau'r gwasanaethau ar sail dros dro am nad yw'n gallu cynnal lefelau staffio diogel.

4.4.18 Bu'r ysbyty yn destun i nifer o adolygiadau yn y blynyddoedd diwethaf ac yn fwyaf diweddar, cafwyd adolygiad annibynnol a gynhaliwyd gan Dr Edward Roberts, Meddyg Teulu ac Is-Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar gais y cyn-Weinidog Iechyd. Ym mis Gorffennaf 2012, roedd y cynigion ar gyfer Ysbyty Coffa Ffestiniog yn cynnwys:

- Datblygu gwasanaeth gwell gofal yn y cartref i helpu pobl aros gartref yn hytrach na bod angen iddynt fynd i'r ysbyty, pan fo hynny'n ddiogel a phriodol;
- Dylai'r ddarpariaeth uned mân anafiadau a phelydr-X gael ei chau;
- Mae trafodaethau wedi dechrau gyda Chyngor Sir Gwynedd a chymdeithasau tai i gynllunio ar gyfer adeiladu darpariaeth iechyd, gofal cymdeithasol a thai newydd gyda'i gilydd;
- Parhau i ddefnyddio adeilad yr ysbyty i ddarparu canolfan i well gwasanaethau cymunedol ac ystyried ehangu gwasanaethau gofal sylfaenol
- Cau'r gwelyau cleifion mewnol, a byddai cleifion sydd angen gwely ysbyty cymunedol yn cael y gofal hwn yn Ysbyty Alltwen

4.4.19 Mae Ysbyty Alltwen 14 milltir o Flaenau Ffestiniog, ac mae'n ysbyty newydd gyda chyfleusterau modern a chapasiti i gefnogi mwy o gleifion. Er mwyn

datblygu gwasanaethau sylfaenol a chymunedol, byddai BIPBC yn buddsoddi tua £4 miliwn i ailddatblygu'r cyfleusterau presennol, yn amodol ar ddatblygu achos busnes. Byddai hyn yn helpu i sicrhau gwasanaethau yn y gymuned ar gyfer y boblogaeth leol, a byddai'n cymryd tua tair blynedd i'w ddatblygu.


| **Goblygiadau i'r CDLIC** |
| --- |
| • Dylai argaeledd gwasanaethau gofal iechyd fod yn ystyriaeth allweddol wrth asesu addasrwydd dyraniadau tai.<br><br>• Nid yw union nifer a lleoliad datblygiadau i'r dyfodol yn hysbys eto ac yn hyn o beth, nid yw'n bosibl ar hyn o bryd sefydlu lle bydd angen cyfleusterau iechyd newydd. Bydd angen i'r CDLI ar y Cyd gynnwys polisïau sy'n seiliedig ar feini prawf, sy'n sicrhau bod y gofod o amgylch cyfleusterau presennol yn cael ei ddiogelu ac nad oes unrhyw golled i ddefnyddiau eraill.<br><br>• Dylai'r CDLI ar y Cyd hwyluso'r gwaith o amddiffyn y cyfleusterau iechyd presennol a darparu cyfleusterau newydd pan fo angen yn unol â gofynion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.<br><br>• Gall y CDLI ar y Cyd gyfrannu tuag at wella iechyd a lles cymdeithasol trwy ddarparu tir ar gyfer digon o seilwaith i gwrdd ag anghenion, diogelu cyfleusterau presennol, a darparu mannau agored a all gyfrannu at wella iechyd y gymuned yn feddyliol ac yn gorfforol.<br><br>• Dylai'r angen am gyfraniadau gan ddatblygwyr ar gyfer cyfleusterau iechyd gael ei ymgorffori mewn polisïau lle bo'n briodol. |

## 4.5 YNNI CARBON ISEL AC ADNEWYDDADWY

4.4.1 Mae'r Llywodraeth yn annog datblygu cynhyrchu trydan o ffynonellau adnewyddadwy. Gwelir y newid o gynhyrchu trwy danwydd ffosil i gynhyrchu ynni o ffynonellau adnewyddadwy fel elfen bwysig o'r ymdrech i gyflawni targedau'r DU i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae Rhaglen Newid yn yr Hinsawdd y Llywodraeth wedi nodi ystod o fentrau i gyflawni'r amcanion hirdymor cyffredinol, gydag elfen allweddol o hynny'n cynnwys cynhyrchu adnewyddadwy. Amcan y polisi yw sicrhau bod ynni adnewyddadwy yn gwneud cyfraniad cynyddol at yr ystod amrywiol o allu cynhyrchu.

**Darpariaeth Bresennol**

4.4.2 Mae'r ffigwr canlynol yn dangos y cynlluniau ynni adnewyddadwy presennol yng Nghymru.




### *Gwynedd*

4.4.3 Amcangyfrifwyd y galw am drydan a gwres yng Ngwynedd trwy ddefnyddio data defnydd ynni gwirioneddol o ystadegau cenedlaethol. Cyfanswm y galw am ynni yng Ngwynedd yn 2010 oedd **1,155.4 GWh** (Gigawat-awr) (Trydan = 815.3 GWh + Nwy = 2,159.6 GWh). Mae cynlluniau ynni adnewyddadwy sy'n weithredol o fewn Gwynedd o fis Ebrill 2012 fel a ganlyn ('Sgopio Cyfleoedd Ynni Adnewyddadwy yng Ngwynedd' 2012):

**Cyfleoedd ynni adnewyddadwy gweithredol yng Ngwynedd (2012)**

| Cynllun | Technoleg | Capasiti wedi'i Osod (MWe) | Statws | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|
| Cynllun Hydro Afon Tyn y Cornel | Ynni dŵr | 0.12 | Gweithredol | DECC |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Maentwrog | Ynni dŵr | 30 | Gweithredol | DECC |
| Cwm Croesor | Ynni dŵr | 0.5 | Gweithredol | NFPA |
| Cwm Dyli, ger Beddgelert | Ynni dŵr | 9.8 | Gweithredol | RWE |
| Twrch, Pandy | Ynni dŵr | 0.475 | Gweithredol | NFPA |
| Afon Ysgeithin, ger Harlech | Ynni dŵr | 0.86 | Gweithredol | NFPA |
| Harnog, ger Rhyd y Main | Ynni dŵr | 0.45 | Gweithredol | NFPA |
| Afon Tŷ Cerrig, Rhydymain | Ynni dŵr | 0.195 | Gweithredol | NFPA |
| Cwm Llan, Nant Gwynant | Ynni dŵr | 0.44 | Gweithredol | NFPA |
| Gain, ger Ganllwyd | Ynni dŵr | 0.55 | Gweithredol | NFPA |
| Coed, ger Bala | Ynni dŵr | 0.45 | Gweithredol | NFPA |
| Cwmorthin, Tan y Grisiau | Ynni dŵr | 0.415 | Gweithredol | NFPA |
| Dolgoch, ger Tywyn | Ynni dŵr | 0.30 | Gweithredol | DECC |
| Pant yr Afon, Llechwedd | Ynni dŵr | 0.4 | Gweithredol | DECC |
| Maenofferen, Blaenau Ffestiniog | Ynni dŵr | 0.2 | Gweithredol | DECC |
| Bryn Fedw Hydro, Rhyd Ddu | Ynni dŵr | 0.7 | Gweithredol | DECC |
| Braich Ddu, Y Bala | Gwynt ar y Tir | 4.0 | Gweithredol | NEPA |
| Crugeran Farm, Sarn Mellteyrn | Gwynt ar y Tir | 0.05 | Gweithredol | Data Cynllunio Gwynedd |
| Cynhyrchu Cilgwyn RO | Nwy Tirlenwi | 2.13 | Gweithredol | ROG |
| Ynni Gwynt ar y Tir Domestig | Microgynhyrchu | 0.016 | Gweithredol | Ofgem |
| Ynni Gwynt ar y Tir Heb fod yn Ddomestig | Microgynhyrchu | 0.006 | Gweithredol | Ofgem |
| Ynni dŵr domestig | Microgynhyrchu | 0.051 | Gweithredol | Ofgem |
| Ynni dŵr heb fod yn ddomestig | Microgynhyrchu | 0.229 | Gweithredol | Ofgem |
| PV Domestig | Microgynhyrchu | 2.4 | Gweithredol | Ofgem |
| PV heb fod yn ddomestig | Microgynhyrchu | 0.094 | Gweithredol | Ofgem |
| Cyfanswm | - | 54.8MWe | - | - |

***Ynys Môn***

4.4.4 Amcangyfrifwyd y galw am drydan a gwres yn Ynys Môn trwy ddefnyddio data defnydd ynni gwirioneddol o ystadegau cenedlaethol. Cyfanswm y galw am ynni mewn GWh yn Ynys Môn yn 2009 oedd1,341.9 GWh (Trydan = 318.6 GWh + Nwy Naturiol = 463.5 GWh).

4.4.5 Cafwyd gwybodaeth ynghylch cynlluniau ynni adnewyddadwy gweithredol yn Ynys Môn yn Ebrill 2012:

**Cynlluniau ynni adnewyddadwy gweithredol yn Ynys Môn (2012)**

| Cynllun | Technoleg | Capasiti wedi'i Osod | Statws | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|

| | | (Mwe) | | |
|---|---|---|---|---|
| Fferm Wynt Trysglwyn | Gwynt ar y Tir | 5.6 | Gweithredol | DECC |
| Fferm Wynt Llanbabo | Gwynt ar y Tir | 20.4 | Gweithredol | DECC |
| Ynni Gwynt ar y Tir Domestig | Microgynhyrchu | 0.0028 | Gweithredol | Ynys Môn |
| Ynni Gwynt ar y Tir Heb fod yn Ddomestig | Microgynhyrchu | 0.025 | Gweithredol | Ynys Môn |
| PV Domestig | Microgynhyrchu | 1.49844 | Gweithredol | Ofgem |
| PV heb fod yn ddomestig | Microgynhyrchu | 0.09616 | Gweithredol | Ofgem |
| **Cyfanswm** | **-** | **27.647** | **-** | **-** |

**Darpariaeth a Gynlluniwyd ac Anghenion i'r Dyfodol**

***Gwynedd***

4.4.6 Mae'r tabl canlynol yn cynrychioli cynlluniau ynni adnewyddadwy a gymeradwywyd ac sy'n disgwyl i gael eu hadeiladu ("Sgopio Cyfleoedd Ynni Adnewyddadwy yng Ngwynedd").

**Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy a Gymeradwywyd yng Ngwynedd (Ebrill 2012)**

| Cynllun | Technoleg | Capasiti (Mwe) i'w osod | Statws | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|
| Maes Awyr Caernarfon, Dinas Dinlle | Gwynt ar y Tir | 0.5 | Disgwyl i'w Adeiladu | DECC |
| Llwyn Isaf AD Plant | Treulio Anaerobig | 0.5 | Disgwyl i'w Adeiladu | DECC |
| Hen-dy, Pistyll | Biomas | - | Cymeradwyo cais Hydref 2002 | Data Cynllunio Gwynedd |
| Llanllyfni | Biomas | - | Cymeradwyo cais Mawrth 2007 | Parc Cenedlaethol Eryri |
| Castell March, Abersoch | Ar y Tir | 0.08 | Cymeradwyo cais ym Mawrth 2006 | Gwynedd |
| Penucharllan, Llanfor, Y Bala | Ynni dŵr | 0.08 | Cymeradwyo cais ym Medi 2011 | PCE |
| Llys y Coed, Trefriw | Microgynhyrchu | - | Cymeradwyo cais ym Mawrth 2011 | PCE |
| Heryri, Craflwyn Hall, Beddgelert | Microgynhyrchu | - | Cymeradwyo cais yn Ebrill 2011 | PCE |
| Helfa Fawr, Llanberis | Microgynhyrchu | - | Cymeradwyo cais yn Rhagfyr 2007 | PCE |
| **CYFANSWM** | **-** | **1.21 MWe** | **-** | **-** |

**Cynlluniau Ynni Adnewyddadwy yn aros am benderfyniad cynllunio yng Ngwynedd (Ebrill 2012)**

| Cynllun | Technoleg | Capasiti wedi'i Osod (Mwe) | Statws | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwynt Aelhaearn | Gwynt ar y Tir | 0.005 | Cyflwyno cais cynllunio 19 Mawrth 2012 | Data Cynllunio Gwynedd |
| Cwmwd, Sarn, Pwllheli | Gwynt ar y Tir | 1.63 | Disgwyl penderfyniad cynllunio | Data Cynllunio Gwynedd |
| Hafod y Llan | Ynni dŵr | 0.65 | Disgwyl penderfyniad cynllunio | Data Cynllunio Gwynedd |
| Hendy Farm, Abersoch | Solar | 0.05 | Cyflwyno cais cynllunio Rhagfyr 2011 | Data Cynllunio Gwynedd |
| **Cyfanswm** | - | **2.3MWe** | - | - |


**Pob Cynllun Ynni Adnewyddadwy ar y gweill**

| Statws | Technoleg | Capasiti wedi'i Osod (Mwe) | Capasiti wedi'i Osod (Mwe) |
|---|---|---|---|
| Capasiti presennol | Ynni dŵr | 45.9 | 54.8 |
| | Gwynt ar y Tir | 4.0 | |
| | Nwy Tirlenwi | 2.1 | |
| | Microgynhyrchu | 2.8 | |
| Cynlluniau Newydd a Gymeradwywyd | Ynni dŵr | 0.08 | 1.2 |
| | Gwynt ar y Tir | 0.63 | |
| | Treulio Anaerobig | 0.5 | |
| Cynlluniau sy'n disgwyl am benderfyniadau cynllunio | Ynni dŵr | 0.7 | 2.4 |
| | Gwynt ar y Tir | 1.6 | |
| | Microgynhyrchu | 0.05 | |
| **Cyfanswm** | - | - | **58.4MWe** |

***Ynys Môn***

4.4.7 Paratowyd yr adroddiad "Fframwaith Ynys Ynni Ynys Môn - Cyfleoedd Posibl ac Effeithiau Economaidd y Fframwaith Ynys Ynni (Mai 2010)" ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn ac mae'n fframwaith sy'n canolbwyntio ar gyfleoedd a all chwarae rhan arwyddocaol mewn dyfodol economaidd mwy gwydn, amrywiol a ffyniannus i Ynys Môn a Gogledd Orllewin Cymru. Mae Ffigwr * yn dangos dosbarthiad gofodol y cyfleusterau presennol ac arfaethedig sy'n cynhyrchu ynni ar yr ynys (Ynys Ynni: Cyfleoedd Posibl ac Effeithiau Economaidd, URS) (2010).

**Cynhyrchu Ynni**




4.4.8 Elfennau allweddol Fframwaith Ynys Ynni yw:

- **Tymor byr**: Gosodiadau biomas graddfa fawr a bach a chnydau ynni ategol, mesurau effeithlonrwydd ynni, a microgynhyrchu. Trafodaethau cychwynnol a chyd-drafod i wneud y mwyaf o gyfleoedd o Barth Ynni Gwynt Ar Y Môr Cylch 3 Môr Iwerddon;

- **Tymor canolig i hir:** Adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd yn yr Wylfa o hyd at 3.2 GW, Gweithredu prosiect llanw yn Ynysoedd y Moelrhoniaid,

canolfan gwynt ar y môr ym Mhorthladd Caergybi ac ailblannu ffermydd gwynt ar y tir sydd eisoes yn bodoli: a

- **Tymor hir:** ehangu pŵer llanw a datblygu'r economi hydrogen. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod potensial Ynys Ynni yn sylweddol, ac yn cynrychioli'r cyfle gorau i Ynys Môn arallgyfeirio a chryfhau ei heconomi.

- Mae **adeiladu gorsaf niwclear newydd** yn cynrychioli'r cyfle gorau o fewn Ynys Ynni gyda manteision sylweddol mewn cyflogaeth a thelerau GYC ar gyfer Ynys Môn a'r isranbarth ehangach. Mae angen cydweithio agos parhaus gyda Horizon, Areva a Westinghouse i sicrhau'r buddiannau lleol a chyfleoedd cadwyn cyflenwi gorau bosibl.

- Dylid cefnogi **ail-hyfforddi a gwella sgiliau'r** gweithlu posibl ar gyfer yr orsaf newydd a'r farchnad ynni ehangach er mwyn sicrhau'r buddiannau gorau bosibl i'r ardal leol yn y tymor byr a'r tymor hwy.

- Hefyd bydd **ymgynghori â chymunedau lleol** yn hanfodol i lwyddiant parhaus yr adeiladu newydd a'r cynigion Ynys Ynni ehangach. Mae angen i'r gwaith ddangos manteision y fframwaith i bobl leol.

- **Datblygu Porthladd Caergybi**. Er bod potensial yma mae yna hefyd gyfyngiadau sydd angen rhoi sylw iddynt. Mae trafodaeth barhaus gyda Centrica, LIC, Stena, yr Awdurdod Porthladd a darpar fuddsoddwyr yn hanfodol i ddeall graddfa a natur y cyfle a'r camau y mae angen eu cymryd i wireddu hyn.

- **Gwella'r seilwaith ynni:** mae uchelgeisiau cenedlaethol a lleol i allforio ynni angen buddsoddiad sylweddol yn y rhwydwaith trawsyrru presennol. Dylid parhau â'r drafodaeth ac eglurder ynghylch cynllunio a darparu cysylltiadau newydd a gwell.

4.4.9 Mae prosiectau arddangos yn cynnig y cyfle i roi Ynys Ynni "ar y map" fel y prif leoliad ar gyfer ymchwil a datblygu ynni.

- **Ynni'r llanw:** Byddai mynd ar drywydd ynni'r llanw yn rhoi mantais cynigydd cynnar i Ynys Môn ac yn helpu i greu'r proffil sydd ei angen i helpu denu buddsoddiad mewn ymchwil, datblygu a gweithgynhyrchu. Mae prosiect Ynysoedd y Moelrhoniaid yn gyfle ardderchog i ddatblygu elfen nodedig o'r fframwaith.

- Mae **dadgomisiynu niwclear** yn Wylfa A a hyfforddiant sgiliau niwclear drwy NSAN hefyd yn cynnig potensial i arddangos dadgomisiynu diogel yr adweithydd presennol a chynnig hyfforddiant ymarferol i helpu mynediad i swyddi newydd a gaiff eu creu yn yr orsaf niwclear newydd.

- Mae **gridiau clyfar** mewn ardaloedd gwledig a threfol yn faes sydd o ddiddordeb cynyddol i'r Llywodraeth a'r sector preifat ac unwaith eto ceir mantais cynigydd cyntaf/ cynnar os gellir symud y cyfle ymlaen.

4.4.10 Mae'r tabl canlynol yn dangos y cynlluniau ynni adnewyddadwy sydd wedi cael eu cymeradwyo ac sy'n disgwyl i gael eu hadeiladu (Asesiad Capasiti Ynni Adnewyddadwy Ynys Môn, Mehefin 2012).

**Cynlluniau Ynni Adnewyddadwy Cymeradwy yn Ynys Môn (Awst 2012)**

| Cynllun | Technoleg | Capasiti (Mwe) i'w osod | Statws | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|
| Fferm Wynt Fferm Ysgellog | Gwynt ar y Tir | 4.6 | Disgwyl i'w Adeiladu | DECC |
| Stad Ddiwydiannol Mona (AD) | Biomas-bwrpasol | 0.2 | Disgwyl i'w Adeiladu | DECC |
| Ynni gwynt ar y tir domestig | Microgynhyrchu | 0.01 | Rhoddwyd caniatâd | Ynys Môn |
| Ynni gwynt ar y tir heb fod yn ddomestig | Microgynhyrchu | 0.03 | Rhoddwyd caniatâd | Ynys Môn |
| **Cyfanswm** | **-** | **4.84** | **-** | **-** |

4.4.11 Yn ogystal, mae dau gynllun arfaethedig o bwys y mae'n ddefnyddiol bod yn ymwybodol ohonynt:

- Gwaith biomas 299MW arfaethedig ger Caergybi (Lateral Power)
- Aráe lanw arfaethedig 10.5MW rhwng Ynysoedd y Moelrhoniaid a Thrwyn y Gader (SeaGen Wales).

4.4.12 Hefyd mae gorsaf bŵer niwclear 3.3GW newydd wedi'i chynllunio yn Wylfa B. Er nad yw hwn yn ynni adnewyddadwy, caiff ei gynnwys yma i ddiben cyflawnrwydd.

| Goblygiadau i'r CDLIC |
|---|
| • Dylai'r CDLI ar y Cyd ystyried y cynlluniau a nodir uchod, a ddylai helpu cyfeirio datblygiadau tai a chyflogaeth i leoliadau priodol gan fanteisio i'r eithaf ar y seilwaith ynni sydd ar gael.<br>• Efallai y bydd angen seilwaith cysylltiedig ychwanegol yn unol â chynhyrchu ynni adnewyddadwy newydd. Gall hyn fod yn gysylltiadau i'r Grid Cenedlaethol, gwifrau preifat, neu ffyrdd mynediad newydd, er enghraifft.<br>• Dylai'r CDLI ar y Cyd hwyluso gostyngiad mewn ynni drwy annog mwy o effeithlonrwydd ynni a defnyddio technolegau adnewyddadwy.<br>• Dylai'r CDLI ar y Cyd hyrwyddo effeithlonrwydd wrth ddylunio adeiladau newydd ac addasu adeiladau sydd eisoes yn bodoli. |

## 4.5 CYFLEUSTODAU - DŴR


4.5.1 Dŵr Cymru yw'r cwmni sy'n gyfrifol am gyfrifoldebau ymgymeriad dŵr, carthffosiaeth a gwaredu carthion yn Ynys Môn a Gwynedd.

**Darpariaeth Bresennol**

4.5.2 Mae 8 parth adnoddau dŵr (WRZ) lle mae'r cyflenwad yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn ardal y CDLl ar y Cyd. Y rhain yw:

- Gogledd Eryri Ynys Môn (NEYM)
- Llŷn Harlech
- Abermaw
- De Meirionnydd
- Tywyn Aberdyfi
- Blaenau Ffestiniog
- Bala
- Dyffryn Conwy

**Parthau Adnoddau Dŵr yn Ynys Môn a Gwynedd**




*(Ffynhonnell: Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Drafft Diwygiedig, 2009)*

Mae Cynllun Adnoddau Dŵr (2014) Dwr Cymru yn rhagamcanu bydd Parth Gogledd Eryri/Ynys Môn mewn diffyg o 2024 a pharhau i fod yn ddiffygiol dros weddill y cyfnod cynllunio. Er mwyn cynnal y cydbwysedd cyflenwad a galw at 2040, bydd Dŵr Cymru yn trosglwyddo dŵr o waith trin dŵr Cwm Dulyn i'r Dê, gwella lefelau gollyngiad, ac ymgymeryd â gwaith

effeithlonrwydd. Yn Nhywyn / Aberdyfi, rhagwelir bydd diffyg i ddigwydd ar ôl 2016. Er mwyn cynnal y cydbwysedd cyflenwad a galw, bydd Dŵr Cymru yn gweithredu'r datrysiad sydd yn costio leiaf, sef trosgwlyddo dŵr crai o echdyniad newydd yn Afon Dysynni a trhosglwyddo'r dŵr hwn i WTW Penybont sydd â chapasiti dros ben.

**Darpariaeth a Gynlluniwyd ac Anghenion i'r Dyfodol**

4.5.3 Mae'n ofynnol i bob cwmni cyflenwi dŵr gynhyrchu Cynlluniau Adnoddau Dŵr sy'n cwmpasu cyfnod o 25 mlynedd, a ddylai ddangos gofynion galw a chyflenwad a ragwelir o ganlyniad i dwf yn y boblogaeth. Mae Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Drafft Diwygiedig Dŵr Cymru (WRMP) (2011) yn amlinellu'r strategaeth 25 mlynedd ar gyfer rheoli adnoddau dŵr, ac mae'n cynnal y cydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw am ddŵr i'r cyfnod 2034-2035. Mae'r WRMP yn defnyddio rhagolygon poblogaeth Llywodraeth Cymru ac mae hyn yn dangos y rhagwelir y bydd gan yr 8 parth presennol warged cyflenwad drwy gydol y cyfnod cynllunio (hyd at 2034-35). Felly, cyn belled â bod y ceisiadau CDLl ar y Cyd ar gyfer twf yn unol â rhagolygon Llywodraeth Cymru, dylai'r cyflenwad i'r parthau hyn gael eu cynnal yn llawn.

4.5.4 Yn ddiweddar, mae Dŵr Cymru wedi ymgynghori ar gynlluniau newydd drwy fuddsoddi £2 biliwn i wella gwasanaethau rhwng 2015 a 2021. Mae cynlluniau manwl yn cynnwys ystod eang o brosiectau a chynlluniau mewn cymunedau ledled Cymru, Swydd Henffordd a Glannau Dyfrdwy.

4.5.5 Rhwng 2015 a 2021, mae'r cynlluniau yn cynnwys:

- buddsoddi £784 miliwn mewn gwasanaethau dŵr
- gwneud gwelliannau sylweddol yn yr 14 gwaith trin dŵr ac ailadeiladu'n sylweddol y gweithfeydd ym Mryn Cowlyd (sy'n gwasanaethu ardaloedd Llandudno a Bae Colwyn) a Thynywaun (sy'n gwasanaethu'r Rhondda);
- gweithio gyda ffermwyr a thirfeddianwyr eraill i leihau faint o lygryddion posib sy'n mynd i mewn i afonydd a moroedd
- ymchwilio i sut mae ansawdd dŵr yn cael ei effeithio gan yr amgylchedd naturiol a newid yn yr hinsawdd cyn iddo gyrraedd gweithfeydd trin
- treialu technolegau newydd i wella ansawdd dŵr ymhellach er mwyn sicrhau bod safonau newydd yn cael eu bodloni
- cynnal 66 o weithfeydd trin dŵr
- adnewyddu 470km o brif bibellau dŵr er mwyn lleihau amlder toriadau mewn ardaloedd risg uchel gan gynyddu gwytnwch asedau strategol allweddol,
- buddsoddi bron i £1 biliwn yn y rhwydwaith carthffosiaeth a'r gwaith trin carthion - o'i gymharu â £565 miliwn yn 2010-15 - fel y gallant ymdopi â'r galwadau cynyddol ar y system gan gynyddu dibynadwyedd gwaith trin carthion allweddol - gydag adnewyddu mawr o 45 o'n gweithiau blaenoriaeth
- lleihau faint o ddŵr wyneb sy'n mynd i mewn i'n rhwydwaith carthffosydd i leihau'r risg o lifogydd a llygru ein cyrsiau dŵr
- cynyddu'n sylweddol faint o ynni adnewyddadwy a gynhyrchir ar safleoedd Dŵr Cymru i 100GWh
- gosod cynhyrchu hydro-electrig newydd ar 30 o safleoedd a chynhyrchu ffoto-foltäig ar 12 safle arall

- darparu cysylltiadau newydd i 64,000 o eiddo newydd sy'n costio rhyw £29 miliwn
- buddsoddi bron i £100 miliwn i wella capasiti systemau dŵr a charthffosiaeth i ganiatáu ar gyfer twf yn y boblogaeth a datblygiad economaidd
- uwchraddio'r rhwydwaith fel y gallant gyflenwi dŵr i orsaf ynni niwclear newydd Wylfa (Ynys Môn).

4.5.6 Mae Strategaeth Rheoli Tynnu Dŵr Dalgylch Ynys Môn Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) (2007) yn disgrifio sut y dylid rheoli'r adnoddau dŵr yn Ynys Môn. Mae gan Ynys Môn ddwy brif gronfa sy'n cyflenwi yr Ynys gyda dŵr yfed. Maent hefyd yn ffynhonnell o ddŵr ar gyfer amaethyddiaeth, ffermio pysgod a diwydiant ysgafn. Ar hyn o bryd nid oes tynnu dŵr daear trwyddedig yn yr ardal gan fod tynnu dŵr daear wedi'i eithrio rhag trwyddedu, ond mae'n cael ei ddefnyddio'n helaeth ar gyfer cyflenwadau dŵr preifat bychan ar draws yr Ynys. Ers 1 Ebrill 2005, mae 5 trwydded tynnu dŵr wyneb cyfredol yn ardal CAMS Ynys Môn. O ganlyniad i Ddeddf Dŵr 2003, mae eithriad tynnu dŵr daear yn yr ardal hon yn cael ei godi ac yn y pendraw bydd angen trwyddedu pob tyniad dros 20m3/dydd.

4.5.7 Mae Strategaeth Rheoli Tynnu Dŵr Dalgylch Llŷn ac Eryri Asiantaeth y CNC (2006) yn nodi sut y bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn rheoli tynnu dŵr hyd at eleni. Mae'n amlinellu lle mae dŵr ar gael, a hefyd, os yw'n berthnasol, lle mae angen gostwng y cyfraddau tynnu presennol. Ar hyn o bryd mae tynnu dŵr daear wedi'i eithrio rhag yr angen am drwydded tynnu dŵr yn ardal CAMS Llŷn ac Eryri, felly ychydig a wyddys am faint o dynnu dŵr sy'n digwydd o'r ffynhonnell hon.

4.5.8 Arweiniodd ymgynghori uniongyrchol gyda Dŵr Cymru ar Strategaeth Ofodol a Ffefrir y CDLl ar y Cyd at wneud y sylwadau canlynol:

- **Bangor** - Unwaith y bydd union leoliadau a dwyseddau'r dyraniadau arfaethedig yn cael eu cadarnhau efallai y bydd yn ofynnol i brif bibellau dŵr oddi ar y safle gael eu darparu at ffin ac o fewn y safle datblygu. Gellir caffael y gwasanaeth hwn trwy ddarpariaethau cais o dan adrannau 40-41 Deddf Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd). I'r ardaloedd uchel yn arbennig, bydd angen i Dŵr Cymru fodelu eu system i sicrhau na fydd darparu cyflenwad dŵr i unrhyw geisiadau datblygu yn tanseilio'r safonau presennol o wasanaeth. Ni ragwelir unrhyw faterion o bwys o ran y system garthffosiaeth er y byddai angen i Waith Trin Dŵr Gwastraff Treborth gael ei uwchraddio rywbryd o fewn cyfnod y Cynllun i ddarparu ar gyfer yr holl dwf arfaethedig.

- **Caernarfon** - Unwaith y bydd union leoliadau a dwyseddau'r safleoedd arfaethedig yn hysbys, gall Dŵr Cymru asesu a fydd angen prif bibellau dŵr oddi ar y safle i wasanaethu'r safle. Mae'r system carthffosiaeth yn ddigonol ar y cyfan ac ni ragwelir unrhyw faterion o bwys o safbwynt gallu Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Caernarfon i gynnwys y ceisiadau cychwynnol ar gyfer twf tai.

- **Pwllheli -** Unwaith y bydd union leoliadau a dwyseddau'r safleoedd arfaethedig yn hysbys, gall Dŵr Cymru asesu a fydd angen prif bibellau dŵr

oddi ar y safle i wasanaethu'r safle. Mae'r system carthffosiaeth yn ddigonol ar y cyfan ac ni ragwelir unrhyw faterion o bwys o safbwynt gallu Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Pwllheli i gynnwys y ceisiadau cychwynnol ar gyfer twf tai.

- **Porthmadog -** Unwaith y bydd union leoliadau a dwyseddau'r safleoedd arfaethedig yn hysbys, gall Dŵr Cymru asesu a fydd angen prif bibellau dŵr oddi ar y safle i wasanaethu'r safle. Mae'r system carthffosiaeth yn ddigonol ar y cyfan ac ni ragwelir unrhyw faterion o bwys o safbwynt gallu Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Porthmadog i gynnwys y ceisiadau cychwynnol ar gyfer twf tai.

- **Amlwch** - Unwaith y bydd union leoliadau a dwyseddau'r safleoedd arfaethedig yn hysbys, gall Dŵr Cymru asesu a fydd angen prif bibellau dŵr oddi ar y safle i wasanaethu'r safle. Mae'r system carthffosiaeth yn ddigonol ar y cyfan ac ni ragwelir unrhyw faterion o bwys o safbwynt gallu Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Amlwch i gynnwys y ceisiadau cychwynnol ar gyfer twf tai.

- **Caergybi** - Unwaith y bydd union leoliadau a dwyseddau'r safleoedd arfaethedig yn hysbys, gellir asesu a fydd angen prif bibellau dŵr oddi ar y safle i wasanaethu'r safle. Dengys cofnodion Dŵr Cymru fod digwyddiadau llifogydd unigol yn y dalgylch dŵr gwastraff hwn a chan ddibynnu ar union leoliad y datblygiad, bydd angen ymdrin â'r materion hyn i ganiatáu i ddatblygiad fynd yn ei flaen. Ni ragwelir unrhyw faterion o bwys o safbwynt gallu Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Caergybi i gynnwys y ceisiadau cychwynnol ar gyfer twf tai.

- **Llangefni** - Unwaith y bydd union leoliadau a dwyseddau'r safleoedd arfaethedig yn hysbys, gellir asesu a fydd angen prif bibellau dŵr oddi ar y safle i wasanaethu'r safle. Dengys cofnodion Dŵr Cymru fod digwyddiadau llifogydd unigol yn y dalgylch dŵr gwastraff hwn a chan ddibynnu ar union leoliad y datblygiad, bydd angen ymdrin â'r materion hyn i ganiatáu i ddatblygiad fynd yn ei flaen. Ni ragwelir unrhyw faterion o bwys o safbwynt gallu Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llangefni i gynnwys y ceisiadau cychwynnol ar gyfer twf tai.

4.5.9 Mae'r asesiad uchod yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd unrhyw ddŵr wyneb o'r eiddo domestig a chyflogaeth i'r dyfodol yn mynd i mewn i'r carthffosydd cyhoeddus. Gall dileu ac/neu atal dŵr wyneb o'r system garthffosiaeth gyhoeddus gynyddu yn fawr y cynhwysedd budr a fydd ar gael ar gyfer datblygu i'r dyfodol.

- **Aneddiadau eraill -** Mae natur amgylchedd wledig eang y CDLl ar y Cyd yn golygu fod gan Dŵr Cymru nifer o weithfeydd trin dŵr gwastraff (GTDG) ar hyd a lled yr ardal ddaearyddol. Mae'n deg dweud bod llawer o'r GTDG hyn yn fach iawn o ran y boblogaeth a wasanaethir, a bydd yn bosibl gwneud asesiad pellach o'r effaith bosibl ar asedau unwaith y bydd mwy o wybodaeth ar gael. Lle bo cyfanswm dwysedd y dyraniadau arfaethedig yn fwy na chynllun damcaniaethol y gweithiau hyn, yna bydd angen capasiti pellach.

4.5.10 Bydd Dŵr Cymru bydd yn gweithio gyda'r ddau Awdurdod, drwy gofnodion cwblhau tai ac ystadegau Argaeledd Tir ar gyfer Tai, i ddeall a monitro'r gyfradd dwf o fewn ardal y CDLl ar y Cyd i'w cynorthwyo i gyflwyno eu cynlluniau ar gyfer ariannu a chymeradwyaeth er mwyn cyflwyno'r seilwaith angenrheidiol i gwrdd â thwf i'r dyfodol. Lle nad oes gan aneddiadau gyfleusterau carthffosiaeth cyhoeddus, yna bydd darpariaethau Cylchlythyr 10/99 Gofynion Cynllunio yng nghyswllt y Defnydd o Garthffosiaeth Nad Yw'n Gyhoeddus sy'n ymgorffori Tanciau Carthion mewn Datblygiadau Newydd yn berthnasol, a bydd angen ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd yn yr achos hwn.

| **Goblygiadau i'r CDLIC** |
|---|
| • Bydd ymgynghori parhaus gyda Dŵr Cymru yn hollbwysig i sicrhau bod unrhyw ddyraniadau tai a chyflogaeth yn addas o ran darparu gwasanaethau dŵr yfed a dŵr gwastraff. Bydd angen i'r Cyngor ymgynghori â Dŵr Cymru unwaith y cynigir datblygiadau safle penodol er mwyn sicrhau bod y capasiti seilwaith priodol ar gael, neu bod modd ei ddarparu i gefnogi twf. <br><br> • Dylai datblygiadau yn y lle cyntaf gysylltu â'r prif garthffosydd lle mae'n ymarferol i wneud hynny, fel arall gallai darpariaeth Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/99 fod yn berthnasol. <br><br> • Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried y rhwymedigaethau a gynhwysir yn y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 sydd yn nodi y gall cael gwared ar ddŵr wyneb o garthffosydd cyfunol gynyddu'r capasiti sydd ar gael i'w ddatblygu. <br><br> • Dylai'r CDLl ar y Cyd gynnwys polisïau (neu gafeatau o fewn polisïau) sy'n cynnwys y meysydd canlynol: diogelu adnoddau dŵr a'r amgylchedd rhag gweithgareddau a allai lygru, fel gweithfeydd mwynau, a gwaredu gwastraff; draenio cynaliadwy a all liniaru llifogydd; mesurau effeithlonrwydd a/neu gadwraeth dŵr wedi'u hymgorffori fel rhan o'r dyluniad datblygiadau newydd; rhwymedigaethau cynllunio ac amodau cynllunio a all wella ansawdd y datblygiad a galluogi i geisiadau fynd yn eu blaen, a allai fel arall gael eu gwrthod; mecanweithiau sy'n galluogi datblygwyr i gwrdd neu gyfrannu tuag at y gost o ddarparu cyfleusterau o'r fath mewn amgylchiadau priodol. |

## 4.6 CYFLEUSTODAU - NWY

## Darpariaeth Bresennol

4.6.1 Nid oes gan y Grid Cenedlaethol unrhyw asedau trawsyrru nwy wedi'u lleoli o fewn ardal weinyddol Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd. *Wales and West Utilities* sy'n berchen ar y rhwydwaith dosbarthu nwy lleol ac yn ei redeg yn Ynys Môn a Gwynedd.

## Darpariaeth a Gynlluniwyd ac Anghenion i'r Dyfodol

4.6.2 Mae'r "Datganiad Datblygu Tymor Hir Wales and West Utilities 2011" yn rhoi syniad o'r defnydd system o'n system piblinellau a'r datblygiadau tebygol. Cynhwysir Ynys Môn a Gwynedd yn "Rhanbarth Gogledd Cymru".

4.6.3 Yn 2011 rhoddodd National Grid UK Transmission (UKT) ddau senario rhagolygon galw i Wales and West Utilities. Y senario cyntaf oedd rhagolwg "Wedi Mynd yn Wyrdd" a oedd yn mabwysiadu safbwynt ymosodol ynglŷn ag effeithlonrwydd ynni, yn enwedig mewn cartrefi newydd, a hefyd wrth gwrdd â thargedau ynni a osodwyd gan lywodraeth y DU. Rhagwelir hefyd yn y tymor hwy y bydd gwres nwy yn cael ei ddisodli gan drydaneiddio gwres sy'n cael ei fwydo o ffynonellau adnewyddadwy. Yr ail senario oedd model "Dilyniant Araf" a ddisodlodd y rhagolwg "Barn Orau" traddodiadol a ddarperir fel arfer gan UKT.

4.6.4 Ar ôl proses adolygiad helaeth, barnodd Wales and West Utilities mai'r senario "Dilyniant Araf" oedd y rhagolwg mwyaf rhesymol i seilio ei ddatganiad 2011 galw arni. Mae'r rhagolwg galw blynyddol presennol i'r senario "Dilyniant Araf" yn nodi ar ôl 2011 y bydd gostyngiad o 7% yng nghyfanswm y galw blynyddol am nwy i'r rhwydwaith cyfan erbyn 2020. Dylanwadir ar y gostyngiad hwn gan y dirywiad yn y farchnad dai, ynghyd â ffactorau eraill megis cynnydd ym mhris tanwydd, ynghyd â mwy o fesurau effeithlonrwydd ynni a thargedau'r llywodraeth i wthio am economi carbon isel.

4.6.5 Disgwylir i Ranbarth Gogledd Cymru hefyd weld gostyngiad o 9% yn y galw blynyddol erbyn 2020. Dengys y tabl canlynol y prosiectau a gynlluniwyd gan Wales and West Utilities rhwng 2011-2020.

**Prosiectau a Gynlluniwyd ar gyfer 2011-2020**

| Project Name | Driver |
|---|---|
| **2011/2012** | |
| HN035 – Chwilog to Ffestiniog Interlink 32km | Condition |
| 17 x Pre-heaters Including E&I Upgrades | Condition |
| 12 x Site Rebuild Including E& I Upgrades | Condition |
| **2012/2013** | |
| HN037 – Llanwrin to Barmouth Tee 22km | Condition |
| Llanfyllin LPG | Capacity |
| Penn Lea PRI | Capacity |
| 6 x Pre-heaters Including E&I Upgrades | Condition |
| 20 x Site Rebuild Including E& I Upgrades | Condition |
| 20 x Metering Replacement Program work | Condition |
| River Trothy Diversion (Pipework and Monmouth PRI) | Condition |
| Bath Holder Decommissioning and Demolition | Customer |
| Five Fords bio-gas entry – North Wales downrating | Customer |
| Watchet PRI | Operational |
| Kenn Offtake | Operational |

4.6.6 Fel y gwelir oddi wrth y rhestr prosiect, ni nodwyd unrhyw brosiectau newydd yn 2011 i gynyddu cynhwysedd y rhwydwaith. Dylid nodi hefyd bod y Grid Cenedlaethol wedi datgan bod datblygiadau i'r rhwydwaith yn ganlyniad i geisiadau cysylltiad penodol e.e. gorsafoedd pŵer, a cheisiadau am gapasiti ychwanegol ar y rhwydwaith gan gludwyr nwy. Yn gyffredinol, mae’r datblygiadau rhwydwaith i ddarparu cyflenwadau i'r rhwydwaith dosbarthu nwy lleol o ganlyniad i dwf mewn galw cyffredinol mewn rhanbarth, yn hytrach na datblygiadau penodol i safle.

| Goblygiadau i’r CDLIC |
|---|
| • Bydd angen i'r Cyngor ymgynghori gyda'r Grid Cenedlaethol a Wales and West Utilities unwaith y cynigir datblygiadau safle penodol er mwyn sicrhau bod y capasiti seilwaith priodol ar gael, neu bod modd ei ddarparu i gefnogi twf. |

## 4.7 CYFLEUSTODAU - TRYDAN

4.7.1 Y Grid Cenedlaethol sy'n gweithredu'r rhwydwaith trawsyrru trydan cenedlaethol ledled Prydain, ac sy'n berchen ar y rhwydwaith yng Nghymru a Lloegr ac yn ei gynnal, gan ddarparu cyflenwadau trydan o orsafoedd cynhyrchu i gwmnïau dosbarthu lleol. Nid yw'r Grid Cenedlaethol yn dosbarthu trydan i safleoedd unigol, ond yn hytrach cwmnïau rhanbarthol ar wahân sy'n berchen ar y rhwydweithiau dosbarthu trydan hyn ac sy'n eu gweithredu, a rôl y cwmnïau lleol hyn yw dosbarthu trydan i gartrefi a busnesau.

**Darpariaeth Bresennol**

4.7.2 Mae system drydan foltedd uchel y Grid Cenedlaethol, sy'n gweithredu ar 400,000 o a 275,000 folt, yn cynnwys tua 22,000 o beilonau gyda hyd llwybr llinell uwchben o 4,500 milltir, 420 o filltiroedd o gebl tanddaearol a 337 o is-orsafoedd.

*Trawsyrru Trydan*


4.7.3 Mae system llinellau trawsyrru uwchben/ceblau tanddaearol foltedd uchel y Grid Cenedlaethol o fewn ardal weinyddol Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd sy'n ffurfio rhan hanfodol o'r rhwydwaith trawsyrru trydan yng Nghymru a Lloegr yn cynnwys y canlynol:

- Llinell 4ZA – llwybr 400kV o is-orsaf Wylfa yn Ynys Môn i is-orsaf Pentir yng Ngwynedd
- Llinell 4ZC – llwybr 400kV o is-orsaf Trawsfynydd yng Ngwynedd i is-orsaf Pentir yng Ngwynedd
- Llinell 4ZB – llwybr 400kV o is-orsaf Pentir yng Ngwynedd i is-orsaf Glannau Dyfrdwy yn Sir y Fflint
- Llinell ZK – llwybr 400kV o is-orsaf Glannau Dyfrdwy yn Sir y Fflint i is-orsaf Trawsfynydd yng Ngwynedd
- Cebl tanddaearol 275kV o is-orsaf Trawsfynydd yng Ngwynedd i is-orsaf Ffestiniog yng Ngwynedd
- Cebl tanddaearol 400kV o is-orsaf Pentir yng Ngwynedd i Dinorwig
- Llinell EV – llwybr 132kV o is-orsaf Wylfa yn Ynys Môn i is-orsaf Penrhos yn Ynys Môn

4.7.4 Mae'r is-orsafoedd canlynol hefyd wedi eu lleoli o fewn ardal weinyddol Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd:

- Is-orsaf Wylfa – 400kV
- Is-orsaf Pentir – 400kV a 132kV
- Is-orsaf Dinorwig – 400kV

**Lleoliad ceblau foltedd uchel y Grid Cenedlaethol**




National Grid high-voltage cable locations © Copyright National Grid Transco.

Map reproduced from the Ordnance Survey Map by permission of Ordnance Survey on behalf of the controller of Her Majesty's Stationery Office.

© Crown Copyright Ordnance Survey,
NATIONAL GRID ELECTRICITY - 100024241

nationalgrid

*Dosbarthiad Trydan*

4.7.5 Scottish Power Energy Networks sy'n berchen ar y rhwydwaith dosbarthu trydan lleol ac yn ei weithredu yn ardaloedd Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd.

**Darpariaeth a Gynlluniwyd ac Anghenion i'r Dyfodol**

4.7.6 Mae'r **Papur Gwyn ar Ynni (2007)** yn ei gwneud yn glir y bydd systemau ynni'r DU yn mynd trwy newid sylweddol dros yr 20 mlynedd nesaf. Er mwyn cyrraedd nodau'r papur gwyn, bydd angen diwygio a diweddaru llawer o seilwaith ynni y DU yn ystod y cyfnod hwn. Bydd hyn yn ofynnol ar gyfer:

- Ehangu'r seilwaith cenedlaethol (e.e. llinellau pŵer uwchben, ceblau tanddaearol, ymestyn is-orsafoedd, pibellau nwy newydd a gosodiadau cysylltiedig); a
- Ffurfiau newydd o seilwaith (e.e. cynhyrchu gwasgaredig ar raddfa lai, safleoedd storio nwy).

4.7.7 Mae adroddiad "**Ein Rhwydwaith Trosglwyddo Trydan: Gweledigaeth ar gyfer 2020**" (Grŵp Strategaeth Rhwydweithiau Trydan, Chwefror, 2012) yn nodi ac yn amcangyfrif costau rhanbarthol yr atgyfnerthu'r trawsyrru posibl a allai fod yn ofynnol i ddarparu ar gyfer cysylltu'r amrywiaeth o gynhyrchu newydd sydd ei angen i gwrdd â thargedau ynni adnewyddadwy'r DU tra, ar yr un pryd, yn hwyluso cysylltiad y cynhyrchu newydd hanfodol arall a fydd ei angen er mwyn cynnal diogelwch parhaus y cyflenwad.

4.7.8 Mae'r atgyfnerthu rhwydwaith trawsyrru posibl a nodwyd yn y ddogfen fel a ganlyn: Tybir cynnydd net o 2.8GW o gynhyrchu i gysylltu o dan y senario Wedi Mynd yn Wyrdd 2011 yn ardal Gogledd Cymru erbyn 2020. Mae hyn yn cynnwys ynni niwclear newydd, Cylch 2 a Chylch 3 gwynt ar y môr, a chyswllt cydgysylltydd i Iwerddon y disgwylir iddo gael ei gwblhau cyn 2012/13. Ar hyn o bryd mae ychydig o dan 1GW o gynhyrchu ynni niwclear, 2.1GW o thermol, 2GW o gynhyrchu storfa bwmp yn cysylltu â system drawsyrru Gogledd Cymru.

4.7.9 O dan y senario Wedi Mynd yn Wyrdd 2011, pan fydd Cylch 3 ffermydd gwynt Môr Iwerddon a chynhyrchu ynni niwclear yn dechrau cael effaith sylweddol ar y ffin, byddai angen atgyfnerthiad pellach ar ffurf:

- Dwy linell drawsyrru newydd rhwng Wylfa a Phentir.
- Gosod ail gylched rhwng Pentir a Thrawsfynydd. Y dyddiadau cwblhau cynharaf posibl yr atgyfnerthu hyn fyddai 2018 a 2016 yn y drefn honno.


4.7.10 Y dyddiadau cwblhau cynharaf posibl o'r cyswllt ailddargludydd Wylfa – Penfro a Thrawsfynydd – Treuddyn Tee yw 2017 a 2014 yn y drefn honno.

4.7.11 Hefyd efallai y bydd angen cyswllt Wylfa - Penfro HVDC o dan y senario Wedi Mynd yn Wyrdd 2011 mor gynnar â 2020. Byddai'r atgyfnerthu hwn yn cael ei gyfiawnhau ymhellach petai holl unedau niwclear Wylfa B yn gweithredu'n llawn. Atgyfnerthu Ar y Tir arall efallai y bydd ei angen yw:


- Ailddargludo cylchedau Trawsfynydd i Treuddyn Tee.

4.7.12 Yn ogystal, datblygwyd opsiwn dylunio rhwydwaith cydlynol ar y môr i ddarparu ar gyfer 2GW o wynt a dybir erbyn 2020 o dan y Senario Wedi Mynd yn Wyrdd 2011, a gellid ei ehangu i uchafswm capasiti parth o 4.2GW ar gyfer capasiti llawn gwynt Môr Iwerddon Cylch 3. Byddai'r opsiwn dylunio hwn yn cydlynu rhyng-gysylltiad rhwng y platfformau ar y môr a'r trawsyrru ar y tir a allai leihau'r nifer o gysylltiadau i gynnal cost y cysylltiadau ac o bosibl gynnig amrywiaeth cylched i gynhyrchu ar y môr. Byddai'r manteision posibl hyn yn dibynnu ar y tybiaethau a wnaed - er enghraifft, yr amseriad a maint y cynhyrchu.

**System drawsyrru Gogledd Cymru gydag opsiynau atgyfnerthu posibl erbyn 2020**




4.7.13 Tuag at ddiwedd 2012, dechreuodd **y Grid Cenedlaethol** ar ei gam cyntaf o ymgynghori ar gynigion i gysylltu ffynonellau newydd o gynhyrchu trydan carbon isel yng Ngogledd Cymru **(Cysylltiad Gogledd Cymru y Grid Cenedlaethol).** I ganfod y ffordd orau o gysylltu â'r cynhyrchu ynni newydd arfaethedig yng Ngogledd Cymru, cynhaliodd y Grid Cenedlaethol broses i nodi 'opsiynau strategol'. Yn ystod y broses hon, cynigiwyd nifer fawr o ffyrdd posibl i gysylltu'r cynhyrchu trydan newydd arfaethedig yng Ngogledd Cymru gyda'r rhwydwaith trydan. Y rhain oedd tanfor, dros y tir, neu gyfuniad o'r ddau, a chrynhoir hyn isod.




4.7.14 Yn dilyn y broses opsiynau strategol, y dewis gorau rhagarweiniol oedd cysylltiad dros y tir, sy'n cynnwys tri phecyn gwaith allweddol:

- **Cysylltiad llinellau uwchben ychwanegol rhwng Wylfa a Phentir** i gysylltu ffynonellau cynhyrchu carbon-isel newydd i'r rhwydwaith presennol yng Ngogledd Cymru. Cynigiwyd nifer o brosiectau ynni carbon isel ar Ynys Môn ac o gwmpas, a bydd angen eu cysylltu â'r rhwydwaith trawsyrru. Mae'r llinell uwchben 400kV bresennol ar Ynys Môn yn rhedeg rhwng is-orsaf y Grid Cenedlaethol yn Wylfa ac un ym Mhentir, Gwynedd. Hyd yn oed pan fydd yr orsaf bŵer niwclear bresennol 1 GW Magnox wedi cael ei dadgomisiynu, ni fyddai'r llinell uwchben bresennol yn gallu darparu ar gyfer y cyfan o'r cynhyrchu newydd sy'n cael ei gynnig. Mae'r Adroddiad Coridor Llwybr Cychwynnol (Atodiad 3) yn nodi pedwar coridor llwybr posibl ar draws Ynys Môn a phum opsiwn croesi posibl ar draws y Fenai i Bentir. Mae coridor llwybr yn lled eang o dir lle gellid adeiladu'r cysylltiad newydd. Gallai'r coridor fod yn eang iawn mewn rhai mannau (hyd at 4km); mewn lleoedd eraill gallai fod yn fwy cyfyngedig o ganlyniad i gyfyngiadau megis trefi a phentrefi, dwysedd poblogaeth ac ardaloedd amgylcheddol dynodedig.

- **Is-orsaf newydd yng Ngorllewin Gwynedd (Atodiad 4)** i gryfhau'r rhwydwaith a sicrhau bod cyflenwadau dibynadwy yn cael eu cynnal yn yr ardal, gan gynnwys i Benrhyn Llŷn. Byddai angen is-orsaf newydd yng Ngorllewin Gwynedd i gynnal cyflenwadau dibynadwy i gartrefi a busnesau yn yr ardal. Ar hyn o bryd mae'r Grid Cenedlaethol yn rhannu'r llinell uwchben bresennol yng Ngorllewin Gwynedd gyda chyflenwr ynni lleol Scottish Power Energy Networks. I ddarparu ar gyfer y pŵer ychwanegol sy'n cael ei gynnig yng Ngogledd Cymru, byddai angen i'r Grid Cenedlaethol wneud defnydd o'r gwifrau ar ddwy ochr y llinell uwchben rhwng Pentir a Thrawsfynydd. Er mwyn caniatáu i hyn ddigwydd, byddai angen is-orsaf newydd yn agos i'r llinell bresennol, gan gryfhau'r rhwydwaith a sicrhau bod cyflenwadau trydan dibynadwy yn cael eu cynnal i ardaloedd cyfagos gan gynnwys Penrhyn Llŷn.

Er mwyn nodi safleoedd is-orsaf posibl, cynhaliodd y Grid Cenedlaethol Astudiaeth o Safleoedd Is-orsafoedd, a gymerodd i ystyriaeth amwynder ac ystyriaethau amgylcheddol, yr effeithiau ar gymunedau lleol ac addasrwydd ar gyfer mynediad trafnidiaeth. Ar ôl cynnal ymchwiliad trylwyr o 20 safle posibl, nodwyd tri dewis safle a allai fod yn addas ar gyfer is-orsaf ger Bryncir: Gogledd, Canol a De. Dim ond un o'r safleoedd is-orsaf hyn fydd yn cael eu symud ymlaen.

- **Cysylltiad tanddaearol ychwanegol yn Aber Glaslyn (Atodiad 5)** i gryfhau'r rhwydwaith i allu trin y swm cynyddol o ynni yn y system. I drin y cynnydd mewn ynni yn y rhwydwaith, byddai angen cysylltiad ychwanegol yn Aber Afon Glaslyn. Mae'r llinell drydan uwchben bresennol yng Ngorllewin Gwynedd yn rhedeg o Bentir i Drawsfynydd. Mae'n newid i geblau tanddaearol yn y Wern, i'r gorllewin o Dremadog. Mae'r cysylltiad wedyn yn parhau i fod o dan y ddaear am tua 6km, gan gydnabod sensitifrwydd amgylcheddol yr aber a golygfeydd i mewn i Barc Cenedlaethol Eryri. Mae wedyn yn ailymddangos yn Y Garth ger Minffordd ac yn newid unwaith eto i linell uwchben, cyn parhau i Drawsfynydd. Mae'r coridor llwybr arfaethedig ac aliniad posibl y llwybr a nodwyd yn fras yn dilyn yr un llwybr â'r ceblau tanddaearol presennol.

4.7.15 Byddai angen nifer o weithiau ychwanegol hefyd i gryfhau'r rhwydwaith trydan. Byddai'r rhain yn cynnwys gwaith ar linellau uwchben sy'n bodoli eisoes yng Ngogledd Cymru, gosod offer i hybu cryfder trawsyrru a gwaith ar is-orsafoedd sy'n bodoli eisoes yn yr Wylfa, Pentir a Thrawsfynydd.

4.7.16 Yng nghyfarfod Cabinet y Cyngor ar 18 Rhagfyr 2012, mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus, penderfynwyd bod angen ymdrin â nifer o faterion yn ymwneud â'r Opsiynau Grid Cenedlaethol a Ffefrir, gan gynnwys yr effaith bosibl ar yr amgylchedd naturiol ac ychwanegu'r pwynt bod angen i'r Grid Cenedlaethol edrych yn fwy manwl ar yr opsiwn o geblau tanfor o ogledd Môn i Gei Connah, yn hytrach na dim ond ystyried yr opsiynau dros y tir.

4.7.17 Os datblygir yr opsiwn a ffefrir ar gyfer y cysylltiad, byddai ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i leihau unrhyw effeithiau'r gwaith arfaethedig, gydag opsiynau yn cynnwys pennu llwybrau a lleoliad offer yn ofalus, mesurau plannu a sgrinio i leihau effaith weledol, gan greu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt, mesurau i leihau sŵn a thraffig, ac ystyried gosod o dan y ddaear mewn ardaloedd arbennig o sensitif. Disgwylir i'r cyhoeddiad ynglŷn â'r dewis safle a ffefrir gael ei wneud yn ystod 2013.

4.7.18 Mae **'Datganiad Datblygiadau Tymor Hir Scottish Power (Tachwedd 2011)'** yn rhoi gwybodaeth am systemau dosbarthu SP Manweb 132kV a 33kV a'r datblygiadau a ragwelir, sy'n effeithio ar allu neu gyfluniad y system.

4.7.19 Uchafswm y galw ar y system yn y flwyddyn 2010/11 oedd 3411MW a ddigwyddodd yn yr hanner awr yn gorffen am 18:30 o'r gloch ar ddydd Llun 20 Rhagfyr, 2010. Yn ystod cyfnod pum mlynedd y Datganiad hwn,


amcangyfrifir y bydd galw brig y gaeaf i ardal SP Manweb yn codi i 3551 MW yn y flwyddyn 2015/16.

4.7.20 Mewn llawer o leoliadau mae'r adnodd gwynt ar y tir mewn ardaloedd lle mae’r system ddosbarthu 132kV a 33kV yn gyfyngedig dros ben, neu lle mae cynhyrchu adnewyddadwy sy'n bodoli eisoes wedi defnyddio’r cylchedau dosbarthu yn llawn. Yn yr ardaloedd hyn mae angen seilwaith trawsyrru a dosbarthu sylweddol i gysylltu cynhyrchu pellach. Ar gyfer cynlluniau a datblygiadau o'r fath, yn aml mae angen trafodaethau gyda'r Grid Cenedlaethol a rhanddeiliaid eraill er mwyn darparu ateb cysylltiad effeithiol.


4.7.21 Mae gan SP Energy Networks gynllun prosiect buddsoddi treigl cynhwysfawr ar gyfer y rhwydwaith dosbarthu. Mae rhan o'r cynllun hwn yn ceisio gwella meysydd allweddol o'r rhwydwaith i gynyddu cynhwysedd y rhwydwaith er mwyn cynnal cyflenwadau dibynadwy i gwsmeriaid presennol gan fod y lefelau lleol o alw’n newid dros gyfnod o amser. Er mwyn helpu i dynnu sylw at effeithiau'r cynlluniau datblygu hyn ar y rhwydwaith, mae'r ffigyrau canlynol yn dangos map capasiti llwyth rhwydwaith SP Manweb. Dengys y mapiau'r capasiti llwyth 'cyfredol' o fewn y rhwydwaith.

4.7.22 Mae'r mapiau hyn yn rhoi golwg ddangosol o ran derbynnedd ardaloedd penodol y rhwydwaith i gysylltiadau llwyth i’r dyfodol. Fodd bynnag, ni ddylid cymryd hon fel lefel diffiniol o dderbynioldeb, gan fod ceisiadau cysylltiad yn cael eu hasesu'n unigol i sefydlu'r effeithiau a goblygiadau er mwyn cysylltu â'r rhwydwaith.

## Mapiau Capasiti Wrth Gefn o ran Llwyth




132kV Load Spare Capacity Map (2011)




33kV Load Spare Capacity Map (2011)

| Goblygiadau i'r CDLIC |
| --- |
| • Bydd angen i'r Cyngor ymgynghori gyda'r Grid Cenedlaethol a Scottish Power unwaith y bydd datblygiadau safle penodol yn cael eu cynnig i sicrhau bod y capasiti seilwaith priodol ar gael, neu bod modd ei ddarparu i gefnogi twf.<br><br>• Byddai gan ddatblygiad potensial Gorsaf Bŵer Wylfa B oblygiadau sylweddol i'r CDLl ar y Cyd o ran y seilwaith ynni, a dylai fod yn ystyriaeth allweddol yn y Cynllun sy'n dod i'r amlwg<br><br>• Dylid ystyried materion yn ymwneud â seilwaith trydan yn y meysydd polisi allweddol canlynol:<br><br>▪ Unrhyw bolisïau sy'n ymwneud â llinellau trawsyrru uwchben a cheblau tanddaearol;<br>▪ Dyraniadau safle-benodol/ polisïau defnydd tir sy'n effeithio ar safleoedd a groesir gan llinellau uwchben neu geblau tanddaearol;<br>▪ Polisïau defnydd tir/ datblygiad arfaethedig ger safleoedd is-orsaf drydan foltedd uchel sydd eisoes yn bodoli;<br>▪ Unrhyw bolisïau sy'n ymwneud â gwyro neu osod dan ddaear linellau trawsyrru uwchben;<br>▪ Polisïau eraill yn ymwneud â seilwaith neu ddarpariaeth cyfleustodau;<br>▪ Polisïau sy'n ymwneud â datblygiad yng nghefn gwlad;<br>▪ Polisïau tirwedd; a<br>▪ Cynlluniau gwastraff a mwynau. |

## 4.8 GWASTRAFF


4.8.1 Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd yw'r Awdurdodau Cynllunio Gwastraff ar gyfer eu hardaloedd priodol, gyda chyfrifoldeb statudol am gynllunio cyfleusterau rheoli gwastraff. Hefyd y ddau Gyngor yw'r awdurdod casglu gwastraff a'r awdurdodau gwaredu gwastraff.

**Darpariaeth Bresennol**

***Ynys Môn***

4.8.2 Ers 2008, cafwyd 13 o Drwyddedau Rheoli Gwastraff Gweithredol yn y cyfan o Ynys Môn. Mae'r rhain yn cynnwys 7 Safle Trosglwyddo, 4 Safle Tirlenwi, a 2 Safle MRS *(Pecyn Tystiolaeth Leol Asiantaeth yr Amgylchedd, 2013).*


**Safleoedd Rheoli Gwastraff a Ganiateir**




***Gwynedd***

4.8.3 Ers 2008, cafwyd 33 o Drwyddedau Rheoli Gwastraff Gweithredol yn y cyfan o Wynedd. Mae hyn yn cynnwys safleoedd ym Mharc Cenedlaethol Eryri gan fod gwastraff yn cael ei drosglwyddo ar draws ffiniau Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae'r rhain yn cynnwys 18 o Safleoedd Trosglwyddo, 6 Safle Tirlenwi, 8 Safle MRS ac 1 Safle Triniaeth *(Pecyn Tystiolaeth Leol Asiantaeth yr Amgylchedd, 2013).*

**Safleoedd Rheoli Gwastraff a Ganiateir**




4.8.4 Mae CDU Gwynedd yn diogelu/ dyrannu 13 o safleoedd rheoli gwastraff. Mae elfennau posibl seilwaith ar y safleoedd hyn yn cynnwys:

- Cyfleuster ailgylchu deunyddiau
- Compostio mewn llestr
- Safle amwynder dinesig
- Cyfleuster trin gwastraff gweddilliol (e.e. cyfleuster troi gwastraff yn ynni)
- Cyfleuster compostio
- Cyfleuster trosglwyddo gwastraff
- Tirlenwi/ tirgodi
- Cyfleuster C&D wedi'i ehangu a chyfleuster trosglwyddo gwastraff
- Cyfleuster compostio gwastraff gan gynnwys mewn llestr a rhenciau agored

**Darpariaeth a Gynlluniwyd ac Anghenion i'r Dyfodol**

4.8.5 Mae Adolygiad 1$^{af}$ Cyntaf Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru (2009) yn nodi trwy gymhwyso'r cymryd tir nodweddiadol a ddefnyddir gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn y Gwerthusiad Cynaliadwyedd ac Asesiad Cylch Bywyd o'r nifer o gyfleusterau newydd sydd eu hangen, mae'n bosibl amcangyfrif cyfanswm yr arwynebedd tir a fydd ei angen ym mhob awdurdod lleol.

4.8.6 Dylid cofio, fodd bynnag, y dylai unrhyw ffigwr a gynhyrchir gan y fethodoleg hon ar gyfer cyfanswm yr arwynebedd tir sydd ei angen gael ei drin fel un

dangosol ac fel amcangyfrif at ddibenion cynllunio yn unig. Yn ymarferol, bydd yr arwynebedd tir sydd ei angen yn dibynnu ar lawer o ffactorau cydberthynol gan gynnwys economeg, meintiau safle ac argaeledd.

4.8.7 Crynhoir yr amcangyfrifon o gyfanswm yr arwynebedd tir ar gyfer cyfleusterau newydd i wasanaethu ardal yr awdurdod lleol yn y tabl isod. Nid yw'r gofynion tir ar gyfer cyfleusterau lleol yn amrywio rhwng opsiynau a chânt eu cyflwyno yn ôl awdurdod lleol a'r math o gyfleuster. Dylid nodi na ddefnyddir y capasiti dros ben o fewn ardal awdurdod lleol i osod yn erbyn gofynion rhanbarth Gogledd Cymru.

**Cyfanswm yr arwynebedd tir ar gyfer cyfleusterau newydd i wasanaethu ardal yr awdurdod lleol**

| Amcangyfrif Gofynion Arwynebedd Tir ar gyfer cyfleusterau i wasanaethu'r awdurdod lleol yn 2013 i Ogledd Cymru, yn ôl Awdurdod Lleol (Hectarau) Awdurdod Lleol: | Gorsaf Drosglwyddo | Safleoedd Amwynder Dinesig | Compostio Rhenciau Agored | Ailgylchu C & D |
|---|---|---|---|---|
| **Conwy** | **4.00** | 0.00 | **1.19** | **3.47** |
| **Sir Ddinbych** | **6.50** | 0.00 | **0.81** | 0.00 |
| **Sir y Fflint** | 0.00 | 0.00 | 0.00 | **1.65** |
| **Gwynedd** | **2.09** | **0.24** | 0.53 | **3.65** |
| **Ynys Môn** | **1.43** | **0.40** | **0.70** | **2.13** |
| **Gogledd Powys** | 0.00 | 0.00 | **0.71** | **1.85** |
| **Wrecsam** | **8.59** | 0.00 | **1.23** | 0.00 |
| **Cyfanswm GC** | **22.61** | **0.64** | **5.18** | **12.75** |

4.8.8 Dylai awdurdodau cynllunio lleol sicrhau y gellir cynnwys gofynion eu hawdurdod lleol o ran tirlenwi dros oes y Cynllun Datblygu Lleol, naill ai o fewn eu ffiniau awdurdodau lleol eu hunain neu'r rhanbarth. Dylid gwneud hyn trwy drafod gyda pherchnogion tir lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd i benderfynu ar gapasiti tebygol safleoedd o fewn ardal yr awdurdod lleol.

4.8.9 Yn gyffredinol, mae gormod o dir cyflogaeth yng Ngogledd Cymru a allai fod yn addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff (adeiladu mewnol). Mae gan ranbarth y Gogledd tua 1,100 hectar o dir diwydiannol ar gael. Lleolir ardaloedd sylweddol o dir yng Ngogledd Ddwyrain y rhanbarth, gan gynnwys argaeledd ar ystadau diwydiannol Glannau Dyfrdwy a Wrecsam, sydd wedi'u lleoli'n strategol. Mae cyflenwad digonol o dir diwydiannol yn Sir Ddinbych, er bod argaeledd o amgylch coridor yr A55 yn gyfyngedig iawn. Yng Nghonwy, mae lle dros ben ar nifer o ystadau diwydiannol, er bod llawer wedi'u lleoli o fewn parth llifogydd C2. Tua'r Gogledd Orllewin, mae gan Wynedd gyflenwad da o dir diwydiannol, gyda chanran fawr wedi'i leoli o amgylch Bangor. Mae peth tir cyflogaeth wedi'i leoli yn y Parc Cenedlaethol ac ni ystyrir ei fod 'ar

gael' fel rhan o'r asesiad hwn. Mae gan Ynys Môn nifer o safleoedd gwag cymharol fawr, tra bod gan Ogledd Powys nifer fwy o safleoedd llai.

4.8.10 Mae'r gofynion rhanbarthol ar gyfer tir sy'n addas ar gyfer gwastraff yn disgyn yn llawer is na'r cyfanswm rhanbarthol o dir cyflogaeth gwag. Fodd bynnag, dylid nodi tra bod ystadau diwydiannol fel arfer yn addas ar gyfer rheoli gwastraff, mae ffactorau eraill megis fforddiadwyedd (gwerth tir), parodrwydd perchnogion tir i ddod â thir ymlaen ar gyfer rheoli gwastraff, amcanion o gynlluniau a strategaethau eraill ac yn y blaen, yn debygol o gael effaith o ran p'un a yw safle yn debygol o ddod ymlaen ar gyfer rheoli gwastraff. Mae tir sydd o fewn perchnogaeth gyhoeddus yn dal i fod yn gymharol sylweddol yn y rhanbarth, ac mae potensial i'r sector cyhoeddus gymryd ymagwedd fwy cydgysylltiedig ac edrych ar eu portffolios eiddo wrth chwilio am safleoedd ar gyfer rheoli gwastraff.

4.8.11 Dengys y tabl isod y safleoedd/ardaloedd/lleoliadau sydd wedi eu rhoi gerbron gan swyddogion awdurdodau lleol i'w cynnwys yn yr Adolygiad. Mae'r lleoliadau yn cael eu hystyried gan swyddogion yr awdurdod lleol i fod â rhywfaint o botensial i wasanaethu mwy nag un awdurdod lleol ac i haeddu ymchwiliad pellach ar y lefel leol. Fel y nodwyd uchod, bydd y safleoedd hyn yn cael eu hymchwilio ymhellach ar y cam Cynllun Datblygu Lleol, gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol a Gwerthusiad Cynaliadwyedd.

**Lleoliadau a gyflwynwyd gan swyddogion awdurdod lleol fel rhai a allai fod yn addas ar gyfer rheoli gwastraff ac a all wasanaethu mwy nag un awdurdod lleol**

| Awdurdod Lleol | Lleoliad | Arwynebedd tir ar gael yn fras (ha) |
|---|---|---|
| **Conwy** | Tir gerllaw safle tirlenwi Llanddulas | 6.5 |
| | Gofer | 16 |
| | **Cyfanswm bras mewn hectarau** | **22.5 ha** |
| **Sir Ddinbych** | Lladd-dŷ yn y Waen (ger Rhuallt) | 3.19 |
| | Pilkingtons | 5.6 |
| | Stad ddiwydiannol HTM | 4 |
| | Stad ddiwydiannol Graig Lelo | 1.01 |
| | Tir yn Ystâd Rhug, Corwen | 10 |
| | Stadau diwydiannol Rhuthun | 27 |
| | **Cyfanswm bras mewn hectarau** | **50.80 ha** |
| **Sir y Fflint** | Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy | DNA |
| | Greenfield | DNA |
| | Prince William Avenue (Sandycroft) | DNA |
| | Chwarel Parry's | DNA |
| | Chwarel Alltami | DNA |
| | Chwarel Rhosesmor | DNA |
| | **Cyfanswm bras mewn hectarau** | **DNA** |
| **Gwynedd** | Ferodo | 16 |
| | Cefn Graianog | 17.5 |
| | Stad ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon | 0.5 |
| | Stad ddiwydiannol Penygroes, | 3.5 |

| | | |
|---|---|---|
| | Penygroes, Caernarfon | |
| | Stad ddiwydiannol Peblig, Caernarfon | 1.4 |
| | **Cyfanswm bras mewn hectarau** | **38.9ha** |
| **Ynys Môn** | Caergybi | 16 |
| | Stad ddiwydiannol Llangefni | 9 |
| | Tirlenwi Penhesgyn Gors | 11.61 |
| | Chwarel Gwalchmai | 13.21 |
| | Rhosgoch | 22.51 |
| | **Cyfanswm bras mewn hectarau** | **72.3** |
| **Gogledd Powys** | Safle Gwastraff Bryn Posteg ger Llanidloes | >1 |
| | Safle Cyflogaeth Trewern, ger Y Trallwng | 1.4 |
| | Safle Cyflogaeth Parc Hafren, Llanidloes | 3 |
| | **Cyfanswm bras mewn hectarau** | **>5.4ha** |
| **Wrecsam** | Stad Ddiwydiannol Llai | 17.5 |
| | Stad Ddiwydiannol Wrecsam | 33 |
| | **Cyfanswm bras mewn hectarau** | **50.5** |
| **Cyfanswm Bras i Ogledd Cymru** | | **>240.4ha** |

4.8.12 Mae'n ymddangos bod arwynebedd tir digonol o fewn Rhanbarth y Gogledd ar gyfer lleoli cyfleusterau rheoli gwastraff. Fodd bynnag, bydd angen asesiad pellach ar lefel yr awdurdod lleol i benderfynu p'un a yw'r safleoedd hyn ar gael, yn ymarferol ac yn addas. Gall safleoedd sydd wedi'u cynnwys o fewn yr asesiad uchod fod yn anaddas oherwydd cyfyngiadau sylfaenol megis perygl llifogydd a dynodiad amgylcheddol, neu efallai fod defnyddiau tir eraill cystadleuol sy'n cynhyrchu gwerth tir uwch, ac felly yn fwy tebygol o gael eu datblygu.

**Goblygiadau i'r CDLIC**

- Dylai'r CDLI ar y Cyd ystyried gofynion rheoli gwastraff i'r dyfodol, gan gymryd i ystyriaeth y lefel, math a chwmpas y ddarpariaeth, cyfleusterau a gwasanaethau.
- Dylai awdurdodau cynllunio lleol sicrhau y gall gofynion eu hawdurdod lleol ar gyfer tirlenwi gael eu cynnwys dros oes y Cynllun Datblygu Lleol, naill ai o fewn eu ffiniau awdurdodau lleol eu hunain neu'r rhanbarth.
- Dylai'r CDLI ar y Cyd hwyluso rheolaeth gynaliadwy o wastraff ac annog lleihad yn y gwastraff a gynhyrchir.

## 4.9 SEILWAITH TRAFNIDIAETH

4.9.1 TAITH yw’r enw ar Gonsortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, grŵp o chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru sydd wedi cael y cyfrifoldeb gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i baratoi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (2009). Mae pedwar consortiwm i gyd. Mae TraCC hefyd yn ymdrin â darnau bach o dde Gwynedd yn ogystal â Nghanolbarth Cymru. Mae'r lleill yn delio â De-ddwyrain Cymru (SEWTA) a De Orllewin Cymru (SWWITCH). Mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (RTP) yn strategaeth ar gyfer nodi a darparu gwelliannau i'n system gludiant yng Ngogledd Cymru dros y 25 mlynedd nesaf. Caiff ei osod yng nghyd-destun nid yn unig bolisïau cenedlaethol ond hefyd dyheadau economaidd a chymdeithasol a chynlluniau datblygu y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru.

### Darpariaeth Bresennol

4.9.2 Mae nodweddion trafnidiaeth Gogledd Cymru yn amrywiol - er bod yr ardal o natur wledig yn bennaf, mae'r canolfannau poblogaeth mwy yn tueddu i gael eu lleoli ar hyd yr arfordir (Caernarfon, Bangor, Llandudno, Conwy, Bae Colwyn) ac i'r gogledd ddwyrain o’r rhanbarth (Yr Wyddgrug, y Fflint, ardal Cei Connah/Queensferry, Wrecsam). Mae'r ffigwr isod yn deillio o ddata monitro diweddar yn dangos y llwythiadau traffig presennol ar rwydwaith priffyrdd TAITH. Mae'r llwythiadau yn adlewyrchu dosbarthiad y boblogaeth ac mae hefyd yn dangos yn glir swyddogaeth bwysig rhannau o'r rhwydwaith fel llwybrau strategol allweddol yn rhanbarthol, cenedlaethol ac Ewropeaidd.


**Y Rhwydwaith Trafnidiaeth yn Rhanbarth Gogledd Cymru**



4.9.3 Mae'r A55 ar draws Gogledd Cymru yn ffurfio prif lwybr priffordd strategol sy'n cysylltu Caergybi ar Ynys Môn (ac Iwerddon tu hwnt) yn y gorllewin, gyda rhwydwaith traffyrdd Gogledd Orllewin Lloegr, ac mae'n rhan o Euro Route E22. Mae ganddi lif traffig dyddiol ar gyfartaledd o hyd at 46,000 o gerbydau ar rannau o'i hyd. Prif lwybrau eraill yn nhermau llwyth yw'r A483 (i'r de o'r A55) gyda llif cyfartalog dyddiol o hyd at 48,000 o gerbydau a'r A494 (trwy Queensferry) gyda llif cyfartalog dyddiol o 49,000 o gerbydau. Ceir cyfyngiadau ar Bont Britannia dros yr Afon Menai rhwng y tir mawr ac Ynys Môn lle mae'r A55 yn cael ei chulhau i un lôn i bob cyfeiriad - yr unig ddarn unffrwd ar hyd y darn cyfan o Euro Route E22. Mae'r bont hefyd yn cael ei chau i gerbydau mawr yn ystod cyfnodau o wyntoedd cryfion.

4.9.4 Dengys y ffigwr isod leoliadau y gwahanol gyfnewidfeydd trafnidiaeth yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Fel y gwelir, yng Ngwynedd, mae'r rhwydwaith trafnidiaeth yn y prif aneddiadau ac o'u hamgylch, yn ogystal ag ardaloedd twristaidd pwysig ar hyd arfordir Gwynedd, yn gymharol dda o gymharu â'r ardaloedd gwledig mwy mewndirol. Yn Ynys Môn, ceir y prif gysylltiadau trafnidiaeth drwy'r coridor canolog rhwng Porthaethwy a Chaergybi.

**Y rhwydwaith trafnidiaeth yn Ynys Môn a Gwynedd**




**Darpariaeth a Gynlluniwyd ac Anghenion i'r Dyfodol**

4.9.5 Blaenoriaethau Rhanbarthol TAITH ar gyfer datblygiadau i'r dyfodol yw:

- *Diwallu anghenion trafnidiaeth amrywiol Gogledd Cymru yn effeithlon* - Darparu rhwydwaith trafnidiaeth ar gyfer Gogledd Cymru sy'n cydnabod amrywiaeth ddaearyddol a chymdeithasol y Rhanbarth, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i symud pobl a nwyddau yn effeithlon.

- *Proffil a pherfformiad cludo teithwyr* - Codi proffil a pherfformiad gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yng Ngogledd Cymru o fewn system integredig gan gynnwys trenau, gwasanaethau bysiau rhyngdrefol cyflym o ansawdd uchel, gwell rhwydweithiau bysiau lleol a chymysgedd priodol o wasanaethau sy'n cynnwys cerbydau llai ar gyfer ardaloedd gwledig.

- *Lleihau tagfeydd ac amseroedd teithiau* - Datrys problemau tagfeydd a mynediad i'r briffordd.

- *Cefnogi datblygiad* - Cefnogi datblygiad trefi a chanolfannau allweddol eraill i gynyddu eu hyfywedd economaidd ac i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a gwelliant amgylcheddol.

- *Rhwydweithiau trafnidiaeth diogel, effeithlon, cynaliadwy* - Cynnal rhwydweithiau trafnidiaeth diogel, effeithlon a mwy cynaliadwy.

- *Gwella gwasanaethau rheilffordd i Ogledd Cymru* - Ceisio gwella holl wasanaethau a chyfleusterau teithwyr rheilffyrdd Gogledd Cymru.

- *Symudiad nwyddau ecogyfeillgar ac effeithlon* - Gweithredu gwelliannau ffyrdd, rheilffyrdd a therfynell ar y cyd ag asiantaethau a chwmnïau cenedlaethol a rhanbarthol.

- *Cynllunio a rheoli trafnidiaeth clyfar* - Sefydlu rhwydwaith monitro gwybodaeth a rheolaeth integredig trafnidiaeth Gogledd Cymru a cheisio hyrwyddo ymddygiad teithio mwy cynaliadwy drwy gynllunio teithio a gwell addysg mewn dewisiadau teithio effeithlon a thechnegau gyrru.

- *Trafnidiaeth gynaliadwy* - Cynyddu lefelau presennol beicio a cherdded gan drigolion ac ymwelwyr.

4.9.6 Dyma rai enghreifftiau o gynlluniau yng Ngwynedd ac Ynys Môn a gynhwysir yn y cynllun trafnidiaeth, a all helpu i ddarparu atebion i rai o'r problemau a materion trafnidiaeth mewn ardaloedd yng Ngogledd Cymru. Mae pob cynllun hefyd yn gysylltiedig â'r Blaenoriaethau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol y bydd yn helpu eu cyflawni.

- **Lôn Adda**. Cyfleuster aml-ddefnyddiwr drwy ganol Bangor yn cynnwys llwybr heb draffig, gyda wyneb arni a deunydd wedi'i rannu, yn dilyn Afon Adda. Byddai cyfleuster o'r fath yn darparu cyswllt strategol o fewn ardal canol y ddinas, tra hefyd yn cysylltu â'r Llwybr Beicio Cenedlaethol a Llwybr Arfordir

Cymru Gyfan. Bydd yn rhuban o fannau gwyrdd cysylltiedig yn gwasanaethu fel parc llinol ac ysgyfaint trefol mewn nifer o ardaloedd adfywio allweddol ar draws y ddinas. Byddai hyn yn helpu i gynhyrchu mwy o deithiau cerdded a beicio yn y ddinas ac yn cyfrannu at leihau allyriadau CO2 lleol. Byddai'n darparu cyfleuster a fyddai'n helpu chwalu'r rhwystrau hygyrchedd sy'n wynebu'r ifanc, pobl anabl a phawb sydd angen gwneud teithiau bob dydd yn y ddinas.

- **Cyfleusterau cyfnewid trafnidiaeth ar ochr ogleddol y rheilffordd yng ngorsaf Porthmadog.** Mae'r cynllun hwn yn amcanu at ddatblygu cyfleusterau megis storio beiciau diogel, gwybodaeth am deithio a defnyddio rhan o'r safle ar gyfer cyfnewidfa fysiau. Byddai hyn yn annog mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a beicio, a lleihau teithiau ceir a thagfeydd.

- **Tref Teithio Cynaliadwy - Bangor.** Bydd y cynllun hwn yn cynnwys: cynlluniau teithio gwyrdd ar gyfer prif gyflogwyr, prosiectau teithio cynaliadwy i ysgol, prosiect danfon siopa cartref, gwelliannau i wasanaethau bws, prosiect Beic Bangor, clwb teithio lleol, ymgyrch ymwybyddiaeth Teithio. Mae gan Fangor boblogaeth uchel o fyfyrwyr sy'n cynyddu'r boblogaeth leol ac yn gwaethygu'r problemau traffig. Mae'r brifysgol ac ysbytai yn gyflogwyr mawr ac maent yn cael effaith fawr ar y drafnidiaeth a symudiad pobl yn y ddinas. Mae cyfle i wella'n sylweddol y sefyllfa ym Mangor drwy weithio gyda'r cyflogwyr mawr. Cafodd y ddinas ei beirniadu am ei lefel o allyriadau CO2, a gallai newid patrymau trafnidiaeth helpu i leihau hyn. Mae'r cynllun o fewn Ardal Cynllun Gweithredu Môn a Menai.

- **Ffordd Porthdafarch Caergybi**. Bydd y cynllun hwn yn darparu llwybr troed rhwng stad dai fawr (Treseifion, sydd o fewn ardal dan anfantais Cymunedau yn Gyntaf Maeshyfryd), ac ardal y traeth sefydledig. Bydd yn gwella diogelwch ar y ffyrdd i nifer fawr o gerddwyr sy'n defnyddio'r ffordd hon. Mae'r cynllun o fewn Ardal Cynllun Gweithredu Môn a Menai.

- **Y Porth Celtaidd** – Mae'r Porth Celtaidd yn gynllun trafnidiaeth strategol integredig a chynllun adfywio trefol ar gyfer Caergybi. Prif amcan y cynllun yw hwyluso adfywio economaidd Caergybi ac Ynys Môn drwy ddarparu gwell cysylltiadau rhwng canol y porthladd a'r dref, gwelliannau amgylcheddol i ganol y dref, a mesurau cysylltiedig wedi'u cynllunio i hyrwyddo gweithgarwch masnachol a chreu swyddi. Mae'r cynllun integredig cyffredinol yn cynnwys yr elfennau allweddol canlynol:
  - Pont dirnod bwysig newydd o fath promenâd dros yr harbwr mewnol, Ffordd Fictoria, a'r lein rheilffordd, gan ddarparu cyswllt uniongyrchol newydd rhwng y derfynell fferi, gorsaf reilffordd, a chanol y dref.
  - Gwelliannau eiddo ac amgylcheddol, arwyddion, a mesurau eraill a fydd yn gwella canol y dref a'i hapêl i siopwyr, twristiaid, defnyddwyr fferi, a buddsoddwyr
  - Darparu cyfleusterau teithwyr o ansawdd uwch lle bo'r rhain yn ddiffygiol ar hyn o bryd, ac integreiddio'r rhain gyda'r bont newydd a chanol y dref.

- Creu cyswllt mwy diogel, uniongyrchol, a hygyrch rhwng dwy ran y dref, gan roi darpariaeth i drigolion Morawelon/ Ffordd Llundain allu cerdded neu feicio i ganol y dref.

4.9.7 Bydd gwelliannau yn cael eu gwneud hefyd i'r orsaf reilffordd fel rhan o'r pecyn. Bydd y gwaith adeiladu yn chwarae rhan annatod o adfywio Caergybi a chynlluniau i ddatblygu'r dref i fod yn borth Celtaidd Ewropeaidd. Bydd gwneud canol y dref yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr y porthladd gan gynyddu nifer ymwelwyr a'r gwariant o fewn y dref a'r ardal gyfagos.

- **Llwybr Defnydd wedi'i Rannu o Gaerwen i'r Afon Cefni**. Mae'r cynllun hwn yn creu cyswllt i gerddwyr a beicwyr o Gaerwen a Phentre Berw i Lôn Las Cefni a thrwodd i Langefni. Bydd yn darparu llwybr diogel i gerddwyr a beicwyr rhwng Gaerwen a Llangefni gan greu cyswllt â'r stadau diwydiannol yn y ddwy dref ac annog trosglwyddo moddol i gymudwyr. Bydd hefyd yn cysylltu Gaerwen a Phentre Berw gyda Lôn Las Cefni a'r NCN 5 ac 8 i annog defnydd hamdden gyda gwelliant dilynol mewn iechyd cyffredinol. Mae'r cynllun o fewn Ardal Cynllun Gweithredu Môn a Menai.

- **Cerdded yn y Gymuned Bodedern.** Bydd hyn yn darparu cysylltiadau troedffordd newydd yn y pentref lle mae cerddwyr presennol yn rhannu gofod ffordd gyda cherbydau, gan wella mynediad o gwmpas y pentref a galluogi cerddwyr i wneud teithiau yn ddiogel o fewn y gymuned. Mae'r cynllun o fewn Ardal Cynllun Gweithredu Môn a Menai.

- **Cwblhau Lôn Las Cefni a chyswllt i NCN 5** I gwblhau Lôn Las Cefni fel llwybr cylchol o gwmpas Llyn Cefni a darparu cyswllt i'r NCN 5 yn Rhosmeirch. Bydd y rhan olaf o Lôn Las Cefni yn darparu llwybr di-draffig o ansawdd uchel a fydd yn cael ei ddefnyddio gan gymudwyr ac at ddibenion hamdden. Bydd y cyswllt i NCN5, ac felly NCN8, yn cysylltu nifer o aneddiadau ar gyfer beicwyr, ac felly'n darparu mwy o gynhwysiant cymdeithasol i'r rhai nad oes ganddynt fynediad at gar, a darparu dulliau eraill o gludiant i'r rhai sy'n gyrru ar hyn o bryd. Mae'r cynllun o fewn Ardal Cynllun Gweithredu Môn a Menai.

- **Gwella Mynediad Integredig Coridor A545** Mae hwn yn gynllun a fydd yn gwella mynediad i Fiwmares ar hyd yr A545, gan ymdrin â phroblemau tagfeydd ym Mhorthaethwy, creu amgylchedd mwy diogel i gerddwyr a beicwyr, a gwella mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r cynllun o fewn Ardal Cynllun Gweithredu Môn a Menai ac yn gysylltiedig â'r fenter Tref Teithio Gynaliadwy Bangor.

- **Cynllun Gwella Pont Briwet -** Ar hyn o bryd mae Cyngor Gwynedd a Network Rail yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu cynllun i weithredu cynllun gwella mawr ym Mhont Briwet. Mae'r cynllun yn anelu at greu cyswllt trafnidiaeth rhyng-foddol cadarn, lleddfu tagfeydd ar y ffyrdd a gwella'n sylweddol ddibynadwyedd y gwasanaethau rheilffordd. Fel rhan o'r gwaith arfaethedig, bydd pont newydd yn cael ei gosod yn ei lle i ddarparu ar gyfer

ffordd ddeuol, trac rheilffordd newydd, llwybr beicio a llwybr troed. Manteision y cynllun arfaethedig yw:


- Cysylltiadau trafnidiaeth am ddim gan y bydd taliadau toll yn cael eu hepgor gan Network Rail
- Llai o dagfeydd ffordd gyda ffordd gerbydau dwy lôn
- Gwell cysylltiadau trafnidiaeth i gerbydau trymach, h.y. ambiwlansys, bysus neu loriau, sydd bellach yn cael eu dargyfeirio 8 milltir drwy bentref Maentwrog
- Mwy o ddewisiadau trafnidiaeth amgen ar gyfer y gymuned a thwristiaid, gyda llwybr beicio newydd a llwybr troed yn cysylltu â Llwybr Arfordir Cenedlaethol a Llwybr Beicio Cenedlaethol Cymru rhif 8.
- Rheilffordd sy'n perfformio'n well wrth i'r trac newydd roi cyflymder lein uwch o 40mya
- Cyswllt trafnidiaeth mwy dibynadwy a chadarn ar strwythur newydd a fydd yn llai tueddol o ddioddef llifogydd, ac wedi'i gynllunio i barhau am ganrif arall o leiaf

*Astudiaeth Caernarfon i Bontnewydd A487 – Ymgynghoriad Cyhoeddus 1 Mawrth i 24 Mai (Llywodraeth Cymru)*

4.9.8 Rhwng 1 Mawrth a 24 Mawrth 2010, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y ffordd osgoi A487 arfaethedig rhwng Caernarfon a Bontnewydd. Prif nod creu ffordd osgoi yw lleddfu tagfeydd, lleihau damweiniau a gwella dibynadwyedd amseroedd teithio yng nghymunedau Caernarfon a Bontnewydd ac o'u cwmpas.

4.9.9 Cynigiwyd nifer o opsiynau fel rhan o'r ymarfer ymgynghori fel a ganlyn (gweler hefyd ffigwr*):

- Dewis Pinc - Ffordd Osgoi Bontnewydd
- Dewis Porffor - Ffordd Osgoi Bontnewydd a Ffordd Osgoi Caernarfon i Felinheli
- Dewis Melyn - Ffordd Osgoi Bontnewydd a Ffordd Osgoi Caernarfon i Blas Menai
- Dewis Brown - Ffordd Osgoi Bontnewydd ac uwchraddio'r Ffordd Caeathro/Pont Rug bresennol





| CRYNODEB O'R NODAU CYNLLUNIO TRAFNIDIAETH | |
|---|---|
| NCT 1 | LLEIHAU AMSER TEITHIO O LANWNDA I BLAS MENAI |
| NCT 2 | LLEIHAU AMSER TEITHIO O LANWNDA I GAERNARFON |
| NCT 3 | LLEIHAU NIFER Y CERBYDAU SY'N TEITHIO TRWY GYMUNEDAU PRESWYL |
| NCT 4 | LLEIHAU DAMWEINIAU AR YR A487 BRESENNOL |
| NCT 5 | GWELLA CADERNID Y RHWYDWAITH |

| SUMMARY OF TRANSPORT PLANNING OBJECTIVES | |
|---|---|
| TPO 1 | REDUCING JOURNEY TIMES LLANWNDA TO PLAS MENAI |
| TPO 2 | REDUCING JOURNEY TIMES LLANWNDA TO CAERNARFON |
| TPO 3 | REDUCING VEHICLES PASSING THROUGH RESIDENTIAL COMMUNITIES |
| TPO 4 | REDUCE ACCIDENTS ON EXISTING A487 |
| TPO 5 | IMPROVE NETWORK RESILIENCE |

Atgynhyrchwyd o'r Map Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. ©Hawlfraint y Goron. Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
Rhif Trwydded: 100017916.


Reproduced from the Ordnance Survey map with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office. ©Crown Copyright Reserved. The National Assembly for Wales Licence No. 100017916.



G
N
CYLCHFAN
PLAS MENAI
ROUNDABOUT
Y FELINHELI
A487
A487
A487
PLAS BRERETON
CRUG
B4366
FFORDD OSGOI'R FELINHELI
FELINHELI BYPASS
AFON CADNANT
RIVER CADNANT
STAD DDIWYDIANNOL
CIBYN
INDUSTRIAL ESTATE
BETHEL
AFON SEIONT
RIVER SEIONT
PARC CARAFANAU
GLAN GWNA
CARAVAN PARK
A4086
I LANBERIS
TO LLANBERIS
A4085
I FEDDGELERT
TO BEDDGELERT
LLANRUG
ALLWEDD
KEY
DEWIS PINC
PINK OPTION
DEWIS PORFFOR
PURPLE OPTION
DEWIS MELYN
YELLOW OPTION
DEWIS BROWN
BROWN OPTION
A487 BRESENNOL
A487 EXISTING
RHEILFFORDD
RAILWAY
GORSAF DRENAU
RAILWAY STATION
AFON
RIVER
GRADDFA
SCALE
1:25000
0
500
1000
1500
2000
METRAU
METRES

4.9.10 Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, cyhoeddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau y Dewis Porffor fel y Llwybr a Ffefrir ar gyfer llwybr y ffordd osgoi. Yng ngoleuni pwysau cyllidebol, penderfynodd y Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth gynnal adolygiad o’r dewisiadau. O ganlyniad i'r adolygiad, mae'r Gweinidog wedi tynnu'r Llwybr a Ffefrir gwreiddiol yn ôl, ac wedi cyhoeddi Llwybr a Ffefrir newydd yn dilyn llinell y Dewis Melyn. Dengys y ffigwr isod y Llwybr a Ffefrir fel llinell ddu lydan. Mae hyn yn ddangosol yn unig, a gall newid ychydig yn ystod y cam nesaf o ddylunio. Y cam nesaf yn natblygiad y cynllun fydd penodi ymgynghorwyr a chontractwr dylunio ac adeiladu.

**Llwybr a Ffefrir Ffordd Osgoi Bontnewydd**



| Goblygiadau i’r CDLIC |
| --- |
| • Bydd gwelliannau i'r rhwydwaith priffyrdd yn hanfodol i hwyluso’r datblygiadau a gynhwysir yn ardal y Cynllun, yn arbennig safleoedd strategol, gwella hygyrchedd a diogelwch ar y ffyrdd.<br><br>• Dylai'r CDLI ar y Cyd annog darparu rhwydwaith trafnidiaeth cynaliadwy gan sicrhau bod dyraniadau wedi'u cysylltu â rhwydwaith o'r fath.<br><br>• Bydd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael dylanwad mawr wrth arwain y modd y caiff materion trafnidiaeth eu hystyried a'u datrys ledled y rhanbarth. Y mater allweddol ar gyfer y Cynllun yw sut fydd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a CDLI ar y Cyd yn cysylltu â’i gilydd. Dynoda TAN 18 gysylltiadau agos rhwng CDLIau, Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a Chynllun Gofodol Cymru. Dylai’r tair dogfen sicrhau eu bod yn gydnaws ac integredig â'i gilydd.<br><br>• Bydd angen i'r CDLI ar y Cyd gynnwys polisïau trafnidiaeth sy'n cefnogi’r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'i nodau. Bydd angen ystyried yn ofalus y dyraniadau defnydd tir ac ardaloedd o amddiffyniad er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu tuag at nodau trafnidiaeth tymor byr a thymor hir ac yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawni targedau'r Cynulliad ar gyfer lleihau allyriadau carbon.<br><br>• Dylid rhoi ystyriaeth arbennig i hygyrchedd safleoedd tai a chyflogaeth, Dylai safleoedd a ddyrennir gael eu gwasanaethu gan lwybrau mynediad effeithlon a’u cysylltu â chysylltiadau trafnidiaeth cynaliadwy. |

- Dylai capasiti'r seilwaith ffyrdd presennol a'r cyfleoedd i'w wella fod yn ystyriaeth allweddol yn y broses o ddyrannu safleoedd.
- Dylid rhoi ystyriaeth i sut mae gwahanol gyfuniadau o dwf mewn gwahanol leoliadau yn arwain at effeithiau gwahanol o ran trafnidiaeth ac unrhyw newidiadau sydd eu hangen i liniaru'r effeithiau hyn.

## 4.10 SEILWAITH CYMUNEDOL – LLYFRGELLOEDD

**Darpariaeth Bresennol**

4.10.1 Mae gan Ynys Môn 10 o lyfrgelloedd ynghyd â llyfrgell symudol a gwasanaeth llyfrgell i'r rhai sy'n gaeth i'w cartrefi. Mae gan Wynedd 17 o lyfrgelloedd ynghyd â llyfrgell symudol.

**Darpariaeth a gynlluniwyd**

4.10.2 Nid oes unrhyw strategaethau na chynlluniau i ddatblygu'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn Ynys Môn a Gwynedd ar hyn o bryd. Os bydd unrhyw gynlluniau yn dod ymlaen, yna byddant yn cael eu hymgorffori yn y papur pwnc.

**Goblygiadau i'r CDLIC**

- Er nad yw mynediad i lyfrgelloedd yn ystyriaeth sylfaenol yn y broses o ddyrannu datblygiadau preswyl, dylai'r CDLI ar y Cyd ystyried lleoliadau llyfrgelloedd wrth sefydlu hierarchaeth aneddiadau. Dylai mynediad at gyfleusterau o'r fath gael ei ystyried yn ffafriol wrth ddyrannu safleoedd ar gyfer tai.

## 4.11 SEILWAITH CYMUNEDOL – CANOLFANNAU CYMUNED A CHYFLEUSTERAU DIWYLLIANNOL

4.11.1 Mae darparu canolfannau cymunedol a chyfleusterau diwylliannol, megis neuaddau cymuned a phentref, yn dibynnu ar amrywiaeth o sefydliadau yn y sector cyhoeddus a chymunedol, er y bydd y gan y ddau Gyngor rôl arweiniol a chydlynu bwysig i'w chwarae. Mae neuaddau cymunedol yn gwasanaethu nifer o ddibenion, gan gynnwys lle i gynnig chwaraeon ac ymarfer corff, man cyfarfod, gweithgareddau ieuenctid, partïon a digwyddiadau, a llu o weithgareddau eraill yn y gymuned. Mae darparu cyfleusterau cymunedol digonol yn cyfrannu at gynnal cymunedau cynaliadwy.

**Darpariaeth Bresennol**

4.11.2 Mae Gwasanaeth Amgueddfeydd a Diwylliant Ynys Môn yn rheoli 5 o safleoedd sy'n dathlu ac yn olrhain hanes yr ynys: Oriel Ynys Môn, Llys Biwmares, Carchar Biwmares, Melin Llynnon, a Goleudy Ynys Lawd.

4.11.3 Mae 3 o amgueddfeydd yng Ngwynedd: Amgueddfa Gwynedd, Bangor; Amgueddfa Lloyd George, Llanystumdwy a Chanolfan Treftadaeth y Crynwyr, Dolgellau.

**Darpariaeth a Gynlluniwyd ac Anghenion i'r Dyfodol**

4.11.4 Nid oes unrhyw strategaethau na chynlluniau i ddatblygu canolfannau cymunedol neu gyfleusterau diwylliannol ym Môn a Gwynedd ar hyn o bryd. Os bydd unrhyw gynlluniau yn dod ymlaen, yna byddant yn cael eu hymgorffori yn y papur pwnc.

| **Goblygiadau i'r CDLIC** |
|---|
| • Er nad yw mynediad i wasanaethau diwylliannol ac argaeledd canolfannau cymunedol yn ystyriaeth sylfaenol yn y broses o ddyrannu datblygiadau preswyl, dylai'r CDLI ar y Cyd ystyried mynediad at yr adnoddau hynny wrth sefydlu hierarchaeth aneddiadau. Dylai mynediad at gyfleusterau o'r fath gael ei ystyried yn ffafriol wrth ddyrannu safleoedd ar gyfer tai. |

## 4.12. CYFLEUSTERAU CHWARAEON

4.12.1 Mae gan chwaraeon a hamdden ran allweddol i'w chwarae o ran iechyd y boblogaeth a gwella ansawdd bywyd. Un o'r prif ystyriaethau ar gyfer y dyfodol fydd sicrhau bod cyfleoedd i bawb, gan gynnwys plant a phobl ifanc, pobl hŷn, a'r rhai ag anableddau, gymryd rhan mewn chwaraeon ffurfiol ac anffurfiol a gweithgareddau hamdden.

**Darpariaeth Bresennol**

***Gwynedd***

4.12.2 Yn ôl dadansoddiad Cyngor Chwaraeon Cymru, mae gan Wynedd ddarpariaeth gymharol dda o'r rhan fwyaf o fathau o gyfleusterau chwaraeon pwrpasol. Yn ogystal, ar y cyfan, mae'r Awdurdod Lleol yn fodlon ar y lefel bresennol a fframwaith darpariaeth canolfannau hamdden ledled y Sir. Fodd bynnag, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod anghenion hamdden yr holl ardal yn cael eu bodloni.

4.12.3 Gellir rhannu Gwasanaethau Chwaraeon a Hamdden Cyngor Gwynedd yn ddwy ran, sef Canolfannau Hamdden a Phyllau Nofio. Ar hyn o bryd, mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu 14 Canolfan Hamdden ar 16 safle. Mae hyn yn cynnwys 3 Pwll Nofio, 5 Canolfan Hamdden gyda phyllau nofio ac 8 Cyfleuster Canolfan Hamdden "sych". Mae'r gwasanaeth yn cyflogi 175 o

aelodau staff parhaol, 80 o staff dros dro neu achlysurol a thîm o swyddogion i hyrwyddo iechyd, ffitrwydd a gweithgareddau awyr agored yn y gymuned.

4.12.4 Yn ogystal â'r cyfleusterau uchod, mae'r cyfleusterau canlynol hefyd yn cael eu rheoli gan y Cyngor: Trac Athletau Treborth a chaeau synthetig maint llawn yn Llanrug, Bethesda, Penygroes a Thywyn a chaeau synthetig ar gyfer pump-bob-ochr ym Mangor, Caernarfon, Porthmadog a Waunfawr. Mae caeau synthetig yng Nghaernarfon a Blaenau sy'n cael eu rheoli ar y cyd gyda'r ysgolion uwchradd. Mae caeau synthetig o dan reolaeth y Gwasanaeth Ysgolion ym Motwnnog, Bangor (Ysgol Friars) a'r Bala. Eithriwyd Maesglas, Bangor, sydd o dan reolaeth y Brifysgol, yn ogystal â'r lleiniau sydd dan reolaeth clybiau chwaraeon ym Mhorthmadog a Phwllheli.

***Ynys Môn***

**Darpariaeth Bresennol**

- 5 Canolfan Hamdden: Canolfan Hamdden Amlwch, Canolfan Hamdden Caergybi, Canolfan Hamdden Biwmares, Canolfan Hamdden Plas Arthur, Canolfan Hamdden David Hughes.
- 3 Pwll Nofio
- Cwrs Golff Cyhoeddus Llangefni

**Darpariaeth a Gynlluniwyd ac Anghenion i'r Dyfodol**

4.12.5 Mae 'Dringo'n Uwch', strategaeth hirdymor Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol, yn nodi ei chyfeiriad strategol yng Nghymru ar gyfer yr ugain mlynedd nesaf ac mae iddi oblygiadau cynllunio defnydd tir gofodol ar lefel genedlaethol a lleol. Nodir y blaenoriaethau ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol, a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- Mae angen i Gymru fod yn fwy egnïol yn gorfforol er mwyn bod yn genedl iachach;
- Mae ar Gymru angen dinasyddion iach er mwyn ffyniant hirdymor;
- Mae angen i Gymru wneud y mwyaf o'r berthynas rhwng chwaraeon, gweithgarwch corfforol a'r amgylchedd naturiol;
- Mae Cymru angen i'w phobl fod yn fwy 'llythrennog yn gorfforol';
- Mae ar Gymru angen cymunedau mwy egnïol yn gorfforol ac;
- Yn ogystal â llwyddiant unigolion, mae ar Gymru angen llwyddiant systematig a chynaliadwy mewn chwaraeon blaenoriaeth.

4.12.6 Mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys targedau, erbyn 2025:

- Bydd canran y bobl yng Nghymru sy'n defnyddio amgylchedd naturiol Cymru ar gyfer gweithgareddau awyr agored yn cynyddu o 36% i 60%
- Bydd gan 95% o bobl Cymru lwybr troed neu lwybr beicio o fewn taith gerdded 10 munud
- Ni ddylai neb fyw mwy na thaith gerdded 6 munud (300metr) oddi wrth eu man gwyrdd naturiol agosaf

- Bydd gan bob gweithiwr sector cyhoeddus a 75% o'r holl weithwyr eraill fynediad at gyfleusterau chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn eu man gwaith neu o fewn 10 munud ar droed o'r gweithle.

**Darpariaeth a Gynlluniwyd ac Anghenion i'r Dyfodol**

4.12.7 Nid oes unrhyw strategaethau na chynlluniau i ddatblygu cyfleusterau chwaraeon/ hamdden ar hyn o bryd yn Ynys Môn a Gwynedd. Os bydd unrhyw gynlluniau yn dod ymlaen, yna byddant yn cael eu hymgorffori yn y papur pwnc.

| **Goblygiadau i'r CDLIC** |
|---|
| • Er nad yw mynediad i gyfleusterau chwaraeon/hamdden yn ystyriaeth sylfaenol yn y broses o ddyrannu datblygiadau preswyl, dylai'r CDLI ar y Cyd ystyried mynediad at yr adnoddau hynny wrth sefydlu hierarchaeth aneddiadau. Dylai mynediad at gyfleusterau o'r fath gael ei ystyried yn ffafriol wrth ddyrannu safleoedd ar gyfer tai. |

## 4.13 MANNAU GWYRDD

4.13.1 Mae gan fannau gwyrdd naturiol gyfraniad pwysig i'w wneud tuag at ansawdd yr amgylchedd ac ansawdd bywyd mewn ardaloedd trefol. Caiff safleoedd o'r fath eu gwerthfawrogi gan y gymuned, maent yn darparu llochesi pwysig i fywyd gwyllt mewn ardaloedd sydd weithiau'n ddifreintiedig, ac maent yn llesol i iechyd a lles y cyhoedd. Gellir diffinio mannau gwyrdd naturiol fel mannau cyhoeddus hygyrch, agored sydd â chymeriad naturiol 'yn bennaf'.

**Darpariaeth Bresennol**

***Gwynedd***

4.13.2 Cynhaliwyd Asesiad o Fannau Naturiol Gwyrdd Gwynedd. O ystyried yr adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor, canolbwyntiodd yr Asesiad Mannau Gwyrdd Naturiol ar yr 'haenau maint safle' a ganlyn:

- Haen 1 – pob man gwyrdd o fewn 300 metr o ardal drefol ddiffiniedig[1] i'r ardal agosaf o ofod Gwyrdd;
- Haen 2 – Mannau gwyrdd o 20 Ha neu fwy, o fewn 2KM o ardal drefol ddiffiniedig.

4.13.3 Nododd yr arolwg 29,382.87 o fannau gwyrdd naturiol hygyrch yn ardal yr astudiaeth. Mae canfyddiadau cyffredinol yr astudiaeth fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Mynediad llawn at fannau gwyrdd naturiol | 3,970.8 |

[1] Yng nghyd-destun y prosiect hwn , mae ardaloedd trefol yn cael eu diffinio fel y rhai a nodwyd yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd naill ai fel Trefol, Canolfan Isranbarthol/ leol neu bentref. Ystyriwyd bod yr aneddiadau hyn yn cynrychioli 'r ardaloedd hynny yn yr ACLI gyda'r dwysedd uchaf o boblogaeth, ac a oedd fwyaf tebygol o fod yn brif ffocws ar gyfer datblygiadau preswyl.

| | |
|---|---|
| Mynediad amodol at fannau gwyrdd naturiol | 25,412.07 |
| Cyfanswm Hygyrch (Llawn + Amodol) | 29,382.87 |
| Dim mannau gwyrdd naturiol hygyrch | 37,233.5 |
| **Cyfanswm** | **66616.38** |

4.13.4 O'r uchod, gellir gweld yn glir bod mannau gwyrdd naturiol fesul 1000 o'r boblogaeth o fewn ardal CDLI Gwynedd yn sylweddol uwch na meincnod isaf y 'Pecyn Cymorth Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch'.

***Haen 1 - trothwy 300 metr –*** dangosodd y defnydd o drothwy'r canlynol:

4.13.5 Nifer y ffiniau datblygu aneddiadau a gwmpesir yn llawn gan y trothwy 300m =31

Nifer y ffiniau datblygu aneddiadau na chwmpesir gan y trothwy 300m =30

Nifer y ffiniau datblygu aneddiadau na chwmpesir gan y trothwy 300m =7

4.13.6 ***Haen 2 – trothwy 2km*** – Dangosodd y parth clustogfa bod holl aneddiadau o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol wedi eu cynnwys yn llawn gan y trothwy 2km.

4.13.7 Mae gan Gyngor Gwynedd 131 o Ardaloedd Chwarae i Blant (Adroddiad Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd, 26/1/12)

**Darpariaeth a Gynlluniwyd ac Anghenion i'r Dyfodol**

4.13.8 Nid oes unrhyw strategaethau na chynlluniau i ddatblygu'r adnodd mannau gwyrdd yn Ynys Môn a Gwynedd ar hyn o bryd. Os bydd unrhyw gynlluniau yn dod ymlaen, yna byddant yn cael eu hymgorffori yn y papur pwnc.

**Goblygiadau i'r CDLIC**

- Dylai'r CDLI ar y Cyd hyrwyddo mynediad rhwydd i fannau agored o ran polisïau unigol a dyraniadau safleoedd benodol.
- Dylai'r CDLI ar y Cyd sicrhau diogelu mannau agored drwy sicrhau na fydd yr adnodd yn cael ei golli i ddatblygiad a hwylusir gan y Cynllun.

## 4.14GWASANAETHAU BRYS – GWASANAETH HEDDLU

4.14.1 Heddlu Gogledd Cymru yw'r heddlu tiriogaethol sy'n gyfrifol am blismona yng Ngogledd Cymru. Mae'r pencadlys yn Mae Colwyn, gyda phencadlysoedd rhanbarthol yn Llanelwy, Caernarfon a Wrecsam.

**Darpariaeth Bresennol**

4.14.2 Caiff Gwynedd ac Ynys Môn eu cynnwys yn Rhanbarth Gorllewinol Heddlu Gogledd Cymru. Mae Pencadlys Rhanbarthol yr Heddlu wedi ei leoli ym Maesincla, Caernarfon. Rhennir yr Isadran yn 5 Ardal: Ynys Môn, Bangor, Caernarfon, Pwllheli a Meirionnydd.

4.14.3 Mae pob ardal yn cael ei rheoli gan Arolygydd, a gefnogir gan Ringylliaid Heddlu, Swyddogion Ymateb, Rhingylliaid Plismona yn y Gymdogaeth, Rheolwyr Rhawd Cymunedol, Swyddogion Cymorth Cymunedol, Swyddogion Cyswllt Ysgolion yn ogystal â Chwnstabliaid Gwirfoddol a Chadetiaid Heddlu. Mae gan bob Ardal bresenoldeb CID, ac yn cael ei chefnogi gan Uned Cudd-wybodaeth, Tîm Troseddu, Ymchwilio Ariannol, Adran Diogelu'r Cyhoedd, Diogelwch Cymunedol, Uned Rheoli Digwyddiadau, Uned Paratoi Ffeiliau, Adnoddau Dynol, a chefnogaeth Gweinyddu a Busnes Mae gan yr Isadran dair Canolfan Ddalfa wedi'u lleoli yng Nghaernarfon, Dolgellau a Chaergybi. Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r gorsafoedd heddlu yn Ynys Môn a Gwynedd:

| Lleoliad | Swyddogaeth yr Eiddo |
|---|---|
| Caergybi | Gorsaf |
| Llangefni | Gorsaf |
| Porthaethwy | Gorsaf |
| Gaerwen | Gorsaf |
| Fali | Gorsaf |
| Benllech | Gorsaf |
| Amlwch | Gorsaf |
| Abersoch | Gorsaf |
| Bala | Gorsaf |
| Bangor | Gorsaf |
| Bangor – Parc Menai | Swyddfeydd |
| Bangor | Canolfan Feddygol |
| Abermaw | Gorsaf |
| Bethesda | Gorsaf |
| Blaenau Ffestiniog | Gorsaf |
| Caernarfon | Gorsaf |
| PRh Caernarfon | Gorsaf |
| Dolgellau | Gorsaf |
| Llanberis | Gorsaf |
| Nefyn | Gorsaf |
| Penrhyndeudraeth | Gorsaf |
| Penygroes | Gorsaf |
| Porthmadog | Gorsaf |
| Pwllheli | Gorsaf |
| Tywyn | Gorsaf |
| **Isadran Cymorth Gweithredol** | |
| Bangor | Canolfan Draffig |

**Darpariaeth a Gynlluniwyd ac Anghenion i'r Dyfodol**

14.4.4 Mae Drafft Strategaeth Ystadau Heddlu Gogledd Cymru (2013-16) yn nodi'r darpariaethau canlynol a gynlluniwyd:

*Gorsafoedd Heddlu Newydd*

14.4.5 Cwblhawyd adeiladu swyddfa heddlu yn Llangefni yn 2013. Ni fydd newidiadau yn digwydd i'r cyfleusterau sydd wedi eu lleoli o fewn swyddfeydd heddlu canlynol, heblaw am welliannau bach:

- Sir Gwynedd:Caenarfon, Dolgellau, Porthmadog, Abersoch, Bala, Bangor, Abermaw, Blaenau Ffestiniog, Llanberis a Phenygroes.

*Gorsafoedd Heddlu i gael eu hadleoli*

14.4.6 Y gorsafoedd heddlu a nodwyd gan yr Adolygiad ar gyfer eu hadleoli yw

Sir Gwynedd: Nefyn, Tywyn, Pwllheli and Bethesda

*Gorsafoedd Heddlu i gael eu hadolygu yn ystod y 5 mlynedd nesaf*

14.4.7 Y gorsafoedd sydd wedi eu nodi ar gyfer adolygiad i'r dyfodol agos yw:

- Sir Ynys Môn: gorsafoedd heddlu Caergybi

| **Goblygiadau i'r CDLIC** |
|---|
| • Er nad yw lleoliad gorsafoedd heddlu yn ystyriaeth sylfaenol yn y broses o ddyrannu datblygiadau preswyl, dylai'r CDLI ar y Cyd ystyried y ddarpariaeth bresennol yn ogystal â newidiadau i'r dyfodol i'r gwasanaeth yn unol â'r strategaeth a grybwyllwyd uchod. |

## 14.5 GWASANAETHAU BRYS - GWASANAETH TÂN AC ACHUB

14.5.1 Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yw'r gwasanaeth tân ac achub sy'n cwmpasu'r prif ardaloedd, gwledig yn bennaf, o Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam yng ngogledd Cymru. Mae awdurdod tân sy'n gweinyddu'r gwasanaeth yn gyd-fwrdd, yn cynnwys Cynghorwyr o gynghorau Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam.

**Darpariaeth Bresennol**

14.5.2 Mae gan Ynys Môn oddeutu 130 o aelodau staff sydd wedi'u lleoli mewn saith gorsaf dân ac yn y swyddfa yn Llangefni. Mae gorsaf criw dydd wedi'i lleoli yng Nghaergybi sy'n darparu criwiau yn yr orsaf rhwng 12.00pm a 10pm bob dydd. Mae system dyletswydd wrth gefn atodol, ac elfen ar alwad yn darparu

cymorth gweithredol ychwanegol. Mae gorsafoedd system dyletswydd wrth gefn wedi'u lleoli yn Amlwch, Biwmares, Benllech, Llangefni, Porthaethwy a Rhosneigr.

14.5.3 Mae'r gorsafoedd yn defnyddio cyfanswm o 11 o beiriannau pwmpio, 3 ohonynt â gallu mynediad cul. Mae gan Gaergybi Uned Diogelu'r Amgylchedd ac mae'n darparu gallu diffodd tân ar y môr arbenigol.

14.5.4 Mae gan Gwynedd oddeutu 240 o aelodau staff sydd wedi'u lleoli mewn 14 gorsaf dân a dwy swyddfa diogelwch rhanbarth. Mae dwy orsaf dân (Bangor a Chaernarfon) yn gweithio'r system criw dydd gyda chymorth system dyletswydd wrth gefn ychwanegol, mae'r gweddill wedi'u staffio gan breswylwyr eu cymunedau priodol sy'n gweithio'r system dyletswydd wrth gefn. Mae gorsafoedd tân ym Mangor, Caernarfon, Dolgellau, Aberdyfi, Abersoch, Bala, Blaenau Ffestiniog, Abermaw, Harlech, Llanberis, Nefyn, Porthmadog, Pwllheli a Thywyn.

14.5.5 Mae'r gorsafoedd yn defnyddio cyfanswm o 17 o beiriannau pwmpio, 11 offer arbennig sy'n darparu ystod o offer arbenigol ar gyfer delio â llawer o wahanol fathau o ddigwyddiadau, o Wrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd i ddigwyddiadau dŵr.

**Darpariaeth a Gynlluniwyd ac Anghenion i'r Dyfodol**

14.5.6 Mae Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi nodi mai'r unig ofyniad i'r dyfodol agos yw datblygu Gorsaf Dân newydd yn Nhywyn, a fyddai'n rhaid eu lleoli ar 0.2 hectar o dir. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw arian cyfalaf ar gael ar gyfer datblygiad o'r fath tan 2014/15. Mae'r gwasanaeth eisoes wedi prynu tir yn Nefyn ar gyfer datblygu Gorsaf Dân newydd yno, ac mae cynlluniau gwerth £900,000 bellach wedi'u cyflwyno ar gyfer gorsaf heddlu a thân gyfun (Chwefror 2013).

| Goblygiadau i'r CDLIC |
|---|
| • Er nad yw lleoliad y gwasanaeth tân ac achub yn ystyriaeth sylfaenol yn y broses o ddyrannu datblygiadau preswyl, dylai'r CDLI ar y Cyd ystyried y ddarpariaeth bresennol yn ogystal â newidiadau i'r dyfodol i'r gwasanaeth yn unol â'r strategaeth a grybwyllwyd uchod. |

## 14.6 TELATHREBU - BAND EANG


14.6.1 Mae darparu seilwaith TG yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar gadernid y CDLI ar y Cyd, ond bydd yn effeithio ar gystadleurwydd economaidd Ynys Môn a Gwynedd. Mae band eang cyflym yn hanfodol i'r economi leol ac i alluogi gweithio hyblyg.

**Darpariaeth Bresennol**

14.6.2 Mae Cynllun Buddsoddi mewn Seilwaith i Gymru (2012) yn ceisio sicrhau y bydd gan bob eiddo preswyl a phob busnes yng Nghymru fynediad at fand eang cyflym erbyn 2015 a bydd o leiaf hanner y rhain yn cael mynediad i wasanaethau band eang cyflym iawn.

